Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017-18



Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017-18

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin o dan Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w hargraffu ar 21 Mehefin 2018.**HC1138**

OGL

**© Crown copyright 2018**

TTrwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU,

neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk..

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ. ISBN 978-1-5286-0536-6

CCS0618857968 06/18

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad Perfformiad** | |
| **Trosolwg** | 5 |
| Datganiad y Prif Weithredwr | 5 |
| Ynghylch yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol | 8 |
| **Dadansoddi ein Perfformiad** | |
| Ein blwyddyn mewn ffocws | 12 |
| Perfformiad yn erbyn ein hamcanion strategol | 13 |
| Sylwebaeth ar reolaeth ariannol | 22 |
| Adroddiad cynaliadwyedd | 24 |
| **Adroddiad Atebolrwydd** | |
| **Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol** | 30 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 31 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu | 32 |
| Datganiad llywodraethu | 33 |
| **Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff** | 46 |
| **Datgeliadau atebolrwydd seneddol** | 59 |
| **Tystysgrif ac adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ’r Cyffredin** | 60 |
| **Adroddiadau Ariannol** | |
| **Y prif ddatganiadau** | 65 |
| **Polisïau cyfrifyddu** | 70 |
| **Nodiadau 2-22** | 80 |

# Adroddiad Perfformiad



# Datganiad y Prif Weithredwr




Dyma bumed Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). Bu'n flwyddyn bwysig i'r Asiantaeth ac rwyf yn wirioneddol werthfawrogi cyfraniad y timau ar draws yr LAA a ddangosodd gymaint o ymrwymiad ac egni i gyflawni.

Amcan Strategol 1

**Darparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol**
Rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol mwy effeithlon. Mae nifer dda iawn wedi defnyddio'r gwasanaeth digidol a lansiwyd porth TG newydd i wella profiad ein defnyddwyr. Drwy weithio'n ddigidol a mabwysiadu ffyrdd symlach a chlyfrach o weithio, rydym wedi llwyddo'n gyson i ragori ar dargedau heriol ar gyfer ein prosesau busnes craidd; drwy brosesu 97% o geisiadau am gymorth cyfreithiol sifil mewn 15 diwrnod gwaith ac eithrio yn yr achosion mwyaf cymhleth; 100% o geisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol mewn dau ddiwrnod gwaith; a thrwy dalu 98% o filiau cywir a chyflawn o fewn 20 diwrnod gwaith. Rydyn ni hefyd wedi cofleidio technoleg a newid er mwyn cynyddu mwy fyth y nifer o alwadau a atebwn, a'u hateb yn gynt.

Eleni rydyn ni wedi gweithredu contractau Cymorth Cyfreithiol Troseddol newydd gyda 1,299 o ddarparwyr i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i bawb cymwys. Mae ansawdd yr un mor bwysig i ni ac eleni llwyddodd Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus i ennill achrediad Lexcel am ragoriaeth mewn rheoli ymarfer cyfreithiol a gofal cwsmeriaid

Amcan Strategol 2

**Creu cysylltiadau cryf ar draws y Llywodraeth a'r system gyfiawnder**
Rydyn ni wedi parhau i fabwysiadu dull cydweithredol o ddarparu gwasanaeth cymorth cyfreithiol effeithlon ar ran y Llywodraeth a'r trethdalwr.

Rydyn ni'n cyfathrebu a gweithio gyda darparwyr cymorth cyfreithiol a rhanddeiliaid ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chyrff cynrychiadol allanol drwy'r Grwpiau Cynghori Contractau Troseddol a Sifil. Rydyn ni wedi sefydlu'r Tîm Ymgysylltu â Darparwyr sy'n cwrdd â darparwyr i ganfod sut y gallwn wella ein ffordd o weithio. Mae'r canlyniadau'n cynnwys symleiddio a phrosesu achosion o dan y Ddeddf Plant Arbennig i leihau amseroedd prosesu.

Un o'r prif lwyddiannau eleni oedd gweithio â'n cydweithwyr yn yr MoJ, cyrff cynrychiadol a grwpiau cwsmeriaid i weithredu newidiadau i'r gofynion tystiolaeth Trais Domestig. Rydyn ni hefyd yn parhau i weithio â chydweithwyr yn y Swyddfa Farnwrol a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) i wneud arbedion a gweithio'n fwy effeithlon ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Amcan Trategol 3

**Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn**
Mae stiwardiaeth ariannol dda a diogelu'r Gronfa'n flaenoriaeth bwysig i'r Asiantaeth. Drwy fonitro'n rhagweithiol sut y gwnawn ein penderfyniadau a sut y gweithredwn ein prosesau, rydyn ni wedi cynnal cyfradd wallau net o lai na 1%.

Fel Asiantaeth rydyn ni'n gwneud ein gorau i dorri'n côt yn ôl y brethyn. Drwy reolaeth ariannol gref, rydym wedi llwyddo i wario llai ar Weinyddu o'i gymharu â 2016-17 gan sicrhau ein bod yn aros o fewn ein cyllideb Weinyddol.

Amcan Trategol 4

**Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol**
Rydym wedi parhau i wreiddio arferion gweithio hyblyg a chydweithredol ymhlith ein timau ar draws yr Asiantaeth a hynny er lles ein pobl a'r sefydliad ehangach. Cefnogwn ac anogwn ein staff i gofleidio technoleg a ffyrdd clyfrach o weithio.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl gan gynnig cyfleoedd dysgu, rhaglenni datblygu a phrentisiaethau i sicrhau bod ein pobl yn meddu ar y gallu i lwyddo ar bob lefel.

Rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar wneud yr LAA yn lle gwell i weithio gan feithrin diwylliant sy'n rhoi pwyslais mawr ar ymrwymiad, gwydnwch a gwaith tîm. Rwyf yn arbennig o falch o ganlyniadau gwych Arolwg Pobl yr LAA; ar 71% mae ein Mynegai Ymgysylltiad Staff yn un o'r pump gorau ar draws y Gwasanaeth Sifil.

Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth i ni barhau i drawsnewid dros y flwyddyn i ddod i fod yn sefydliad symlach a chlyfrach. Byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion gan weithio'n agos â'n sefydliadau partner yn yr MoJ, ar draws y Llywodraeth a thu hwnt.

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
13 Mehefin 2018

Proseswyd dros 500,000 o geisiadau am gymorth cyfreithiol.

Prosedwyd **97%** o geisiadau cymorth cyfreithiol sifil o fewn 15 diwrnod gwaith, ac eithrio'r achosion mwyaf cymhleth.

Proseswyd **100%** o geisiadau cymorth cyfreithiol troseddol o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

**Prosesau / darparu**

Talwyd dros 530,000 o filiau o fewn 20 ddiwrnod gwaith i'w derbyn.

Talwyd **98%** o filiau cyflawn a chywir o fewn 20 diwrnod gwaith gan ragori ar y targed o

**90%**

**Prosesau / darparu**

Llwyddodd Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus i ennill achrediad Lexcel am ragoriaeth mewn gofal cwsmeriaid a rheoli ymarfer cyfreithiol.

**Ein Pobl**

Cynyddodd ein sgôr ymgysylltu â staff tri phwynt canran i

**71%** gan ein rhoi yn y pumed safle

o'r **98** o sefydliadau'r Llywodraeth sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Pobl.

**Ein Pobl**

Bu inni ateb dros

**213,000** 000 o alwadau ffôn yn ein canolfannau galwadau ac wedi rhagori ar ein targedau dangosyddion perfformiad o ran gwasanaeth cwsmer a gohebiaeth â chwsmeriaid.

**Enw da**

# Ynghylch yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Ein pwrpas: Gweithio gydag eraill i ragori mewn darparu cymorth cyfreithiol**

Mae ein gwaith yn gweinyddu cymorth cyfreithiol yn hanfodol os yw'r systemau cyfiawnder troseddol, sifil a theulu i weithio'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol ac rydyn ni'n gweithio'n agos â darparwyr cyfreithiol a'r MoJ ehangach i gyflawni hyn. Mae ein pwrpas wedi bod wrth galon ein holl benderfyniadau a'n gwaith i wella gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae ymgysylltiad ac ymrwymiad ein staff yn greiddiol i gyflawni hyn.

Mae ein pwrpas wedi'i ategu gan ein pedwar Amcan Strategol:

**SO1**
Rhoi mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

**SO2**
Creu cysylltiadau cryf ar draws Llywodraeth a'r system gyfiawnder

**SO3**
Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn

**SO4**
Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

Rhoddir mwy o fanylion am ein Hamcanion Strategol ar dudalen 13 o dan yr adran Dadansoddi ein Perfformiad.

Dyma'r flwyddyn gyntaf ers i ni ailwampio ein Hamcanion Strategol. Mae'r amcanion hyn yn parhau i roi cyfeiriad i'n gwaith o wella a moderneiddio'r LAA, o gryfhau ein partneriaethau ar draws y system gyfiawnder gan hefyd sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr a bod gan ein pobl y sgiliau a'r adnoddau iawn i wneud eu gwaith.

Mae ein Hamcanion Strategol yn cefnogi gweledigaeth yr MoJ yn ei Chynllun Adrannol Sengl:


www.gov.uk/government/publications/moj-single-departmental-plan-2015-to-2020/single-departmental-plan-2015-to-2020

# Ein gwaith

## Wrth graidd ein gwaith:

Rydyn ni'n prosesu ceisiadau gan ddarparwyr am gymorth cyfreithiol ac yn talu eu biliau

Mae gennym reolwyr contract sy'n gweithio'n agos â'n darparwyr i gynnal y berthynas a sicrhau bod ein contractau'n rhedeg yn llyfn




Mae gennym swyddogaeth gomisiynu a strategaeth sy'n dylunio, datblygu a thendro contractau newydd

Rydyn ni'n darparu cynrychiolaeth amddiffyn annibynnol mewn achosion troseddol drwy Wasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus

## Cefnogir hyn i gyd gan

Staff Cyllid a Digidol proffesiynol yr MoJ sy'n cefnogi'r LAA fel rhan o'r fframwaith arweinyddiaeth drwy wneud. Maen nhw'n gweinyddu'r gwaith o dalu am gymorth cyfreithiol, yn sicrhau bod y gofynion ariannol yn cael eu cwrdd ac yn cynorthwyo gyda darparu rhaglenni newid allweddol a symud yr LAA tuag at wasanaethau digidol a phrosesau awtomeiddio.

Swyddogaeth gorfforaethol sy'n sicrhau Cyfathrebu effeithiol, sy'n cefnogi ein Bwrdd a'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, yn datrys cwynion sydd wedi'u huwchgyfeirio ac yn ateb ceisiadau'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) a Rhyddid Gwybodaeth (FOI).

Cyd-wasanaethau, gan gynnwys adnoddau dynol a gwasanaethau cyfreithiol, sy'n darparu cymorth i'r LAA, yr MoJ ac adrannau eraill y llywodraeth.

**Ein Pobl**
Mae ein staff wrth galon popeth a wnawn ac rydyn ni wedi gwneud ein gorau i wneud yr LAA yn lle gwell i weithio. Yn 2017-18 bu i ni ganolbwyntio ar gryfhau sgiliau ein harweinyddiaeth a datblygu gweithlu hyblyg ac ymroddedig gyda'r sgiliau, y gallu a'r wybodaeth iawn.

Rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i werthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddarparu cymorth cyfreithiol ac yn ein gweithle.

Mae ein pobl wedi elwa o amrediad o raglenni datblygu oddi mewn a'r tu allan i'r LAA.

Am fwy o wybodaeth am yr Arolwg Pobl, amrywiaeth a chynhwysiant, ewch i dudalennau 20 a 57.

**Ein Partneriaid**
Fel un o'r prif gyfranwyr yn y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, rydyn ni'n gweithio ag ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol ar sail sawl model gweithredu gwahanol. Maen nhw'n cynnwys ymarferwyr unigol, busnesau mawr aml-swyddfa a sefydliadau di-wneud-elw. Mae rhai'n rhoi cyngor ac yn arbenigo mewn maes cyfraith penodol; mae eraill yn darparu gwaith mewn sawl categori gwahanol o'r gyfraith.

Gweithiwn hefyd gyda rhanddeiliaid ar draws y system gyfiawnder. Maen nhw'n cynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, y Byrddau Cyfiawnder Troseddol a Theuluol, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, HMCTS a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).

Mae ein perthynas gyda'n darparwyr yn ganolog i waith yr LAA. Drwy gyfarfodydd fel y Grwpiau Cynghori Contractau Troseddol a Sifil a'r Tîm Ymgysylltu â Darparwyr, rydyn ni'n sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n rheolaidd ar faterion gweithredol pwysig â'r prif gyrff cynrychiadol. Mae ein rheolwyr contract a'n staff rheoli achosion yn gweithio'n ddyddiol â'n darparwyr i sicrhau bod ceisiadau a biliau'n cael eu prosesu a bod ein contractau'n rhedeg yn llyfn. Mae cyhoeddiadau gweithredol rheolaidd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau cymorth cyfreithiol GOV.UK.

**Ymgysylltu yng Nghymru**
Mae'r LAA, drwy weithgorau strategol, yn cynnal cysylltiadau â Llywodraeth Cymru, i gydnabod gweinyddiaeth ddatganoledig y wlad.

Gweithiwn yn uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft Byrddau Cyfiawnder Teuluol a Throseddol Cymru a hefyd gyda rhanddeiliaid penodol i Gymru fel Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Llys Plant a Theuluoedd Cymru.

**Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol**
Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 wedi sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cymorth cyfreithiol yn aros yn annibynnol o Weinidogion. Y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC), a grewyd o ganlyniad i'r Ddeddf, yw'r unig rôl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Mae Bwrdd yr

LAA a'r Tîm Cyfreithiol Canolog yn cefnogi'r Cyfarwyddwr i sicrhau bod arferion cadarn yn eu lle i gadw'r broses o wneud penderfyniadau'n annibynnol.

Prif Weithredwr yr LAA sy'n cyflawni'r rôl hon. Cyhoeddir Adroddiad y DLAC yn flynyddol ynghyd â'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

**Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS)**
Mae'r PDS yn darparu cyngor a chynrychiolaeth amddiffyn ym mhob math o achosion troseddol, o orsaf yr heddlu i'r uwch lysoedd. Mae'n cynrychioli diffynyddion sy'n cael cymorth cyfreithiol. Wedi'i sefydlu yn 2001, hwn oedd y gwasanaeth amddiffyn troseddol cyhoeddus cyflogedig cyntaf yng Nghymru a Lloegr. Lleolir swyddfeydd y PDS yn Abertawe, Pontypridd, Cheltenham a Darlington. Yn 2014 ehangodd i gynnwys Tîm Eiriolaeth. Mae'r PDS yn cynnal achosion ar draws y wlad, ar gyfarwyddyd unrhyw gwmni cyfreithwyr neu ddiffynnydd sy'n cael cymorth cyfreithiol.

# Ein Rhaglenni Diwygio

## Rhaglen Trawsnewid ein Asiantaeth (ATP)

Drwy'r ATP ymrwymwn i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a chlyfrach i gymdeithas, y cyhoedd ac i'n darparwyr cymorth cyfreithiol gan sicrhau bod yr LAA yn parhau i fod yn lle gwych i weithio.

Gweledigaeth yr ATP yw symleiddio'r gwaith o ddarparu Cymorth Cyfreithiol erbyn 2020. Bydd yn gwneud hyn drwy gyflawni'r tri nod allweddol:

1. Darparu gwasanaeth hawdd ei ddefnyddio a syml i'w weinyddu;
2. Sefydlu gwasanaeth digidol modern

3. Bod yn rhan hyblyg a gwerthfawr o'r system gyfiawnder sy'n addasu i anghenion y dyfodol.

## Ein Portffolio Newid

Mae ein Portffolio Newid yn sicrhau y gwnawn y newidiadau sydd angen eu gwneud i gefnogi ein hamgylchedd gweithredol a pharhau i gwrdd â'n targedau perfformiad. Mae hyn yn cynnwys ymateb i ddeddfwriaeth, rhaglenni polisi a blaenoriaethau gweinidogol newydd, stiwardiaeth ariannol barhaus a chadw ar y blaen i ofynion moderneiddio ar draws y system gyfiawnder.

Dyma rai enghreifftiau

- Sefydlogi ein seilwaith TG
- Rhannu data'n well ar draws y system gyfiawnder;
- Adnewyddu ac ail-dendro contractau busnes hollbwysig;
- Sicrhau bod digon o ddarpariaeth yn ei lle drwy Gontract Sifil 2018.

# Dadansoddi ein Perfformiad

## Ein blwyddyn mewn ffocws

Yn ein pumed flwyddyn fel Asiantaeth Weithredol, rydyn ni wedi cyflawni nifer o welliannau gwasanaeth a phroses a gafodd effaith gadarnhaol ar ein gwaith. Llwyddwyd i wneud hyn gan barhau i berfformio'n gryf yn erbyn ein hamcanion strategol a'n targedau gweithredol.

**Ein Pwrpas**
Gweithio gydag eraill i ragori mewn darparu cymorth cyfreithiol

**Amcan Trategol 1**

Rhoi mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

**Amcan Trategol 2**

Creu cysylltiadau cryf ar draws Llywodraeth a'r system gyfiawnder

**Amcan Trategol 3**

Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn

**Amcan Trategol 4**

Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

# Perfformiad yn erbyn ein Amcanion Strategol yn 2017-18

Mae'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'n Hamcanion Strategol (SOs) wedi cael eu monitro drwy fframwaith rheoli perfformiad yr LAA, sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) sy'n mesur elfennau allweddol o'n gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad hefyd yn mesur cerrig milltir allweddol o ran darparu ymrwymiadau Cynllun Busnes 2017-18 yr LAA. Drwy gydol y flwyddyn adroddwyd y canlyniadau i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, i Fwrdd yr LAA ac i Bwyllgor Gweithrediadau'r MoJ.

## SO1

Rhoi mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

**KPI: Darparu Gweithredol**
**KPI: Gohebiaeth a Gwasanaeth Cwsmeriaid**

Ymrwymiadau

- Canolbwyntio ar ein pwrpas craidd o rhoi mynediad dibynadwy ac amserol at gymorth cyfreithiol
- Gwella ein prosesau busnes i sicrhau ein bod yn cynnal a chryfhau'r gwasanaeth rhagorol a ddarparwn i gwsmeriaid, boed yn ddefnyddwyr neu'n bartneriaid yn y system gyfiawnder
- Gweithredu gwelliannau i'n systemau TG busnes gan gynnig mwy o wasanaethau digidol i staff a defnyddwyr
- Caffael contractau cymorth cyfreithiol sifil newydd ar gyfer cyngor wyneb yn wyneb a chyngor arbenigol a ddarperir drwy'r llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Sifil

## SO2

Creu cysylltiadau cryf ar draws Llywodraeth a'r system gyfiawnder

Ymrwymiadau

- Moderneiddio'r ffordd y talwn eiriolwyr amddiffyn troseddol a chyfreithwyr troseddol drwy newid y Cynlluniau Ffioedd
- Graddedig ar gyfer Eiriolwyr a Chyfreithwyr
- Gwneud newidiadau i gefnogi cyflwyno Credyd Cynhwysol (UC)
- Gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder i gyflwyno blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gamdrin domestig
- Gweithio gyda'n partneriaid ar draws y system gyfiawnder i wneud arbedion pellach yn ein canolfannau cyswllt
- Gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol tuag at ddigideiddio mwy o'r system cyfiawnder troseddol

## SO3

Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn

**KPI: Rheolaeth Ariannol**

Ymrwymiadau

- Torri'n côt yn ôl ein brethyn a gwario llai ar Weinyddu yn 17/18
- Gweithredu Contractau Troseddol newydd a ddechreuodd yn Ebrill 2017
- Cefnogi'r ffocws mwy hirdymor ar symleiddio ac awtomeiddio ein gwasanaethau ymhellach drwy ein portffolio o newidiadau a diwygiadau
- Parhau i gomisiynu gwasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr o ansawdd sicr

## SO4

Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

**KPI: Pobl**

Ymrwymiadau

- Datblygu a dechrau darparu ein Strategaeth Pobl
- Ymateb i ganlyniadau Arolwg Pobl 2016 drwy gryfhau'r arweinyddiaeth ar bob lefel yn y sefydliad; drwy gael sgyrsiau gwell, cryfhau sgiliau a gallu ein pobl a bod yn glyfrach o ran sut yr ydyn ni'n cydweithio
- Parhau i greu gweithle cynhwysol, cynyddu amrywiaeth a gwreiddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gryfach wrth ddylunio a darparu cymorth cyfreithiol

Amcan Trategol 1

## SO1: Darparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

### KPI: Darparu Gweithredol

- Yn mesur pa mor gyflym yr ydyn ni'n prosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol sifil a throseddol ac yn talu biliau ein darparwyr
- Yn monitro pa mor dda y rheolir perfformiad y contractau â'n darparwyr.

Rydyn ni wedi gwella ein perfformiad o ran prosesu ceisiadau troseddol ac wedi aros o fewn y targedau ar gyfer prosesu ceisia-dau sifil a biliau troseddol a sifil

**100%** o geisiadau troseddo wedi eu prosesu o fewn 2 ddiwrnod gwaith (targed 90%)

**97%** o geisiadau troseddol wedi eu prosesu o fewn 15 ddiwrnod gwaith (targed 90%)

PAID

**98%** o filiau wedi eu talu mewn mis (targed 90%)

### KPI: Gohebiaeth a Gwasanaeth Cwsmeriaid

- Monitro ymateb ein gwasanaeth cwsmeriaid i ymholiadau, gohebiaeth a chwynion gan gynnwys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a'r Ddeddf Diogelu Data (DPA).
- Monitro'r gwasanaeth a ddarparwn drwy'r Llinell Gymorth Sifil, gan fesur pa mor gyflym yr ydyn ni'n ateb galwadau a chreu cwsmeriaid bodlon.

**100%** o gwynion haen 1af wedi cael sylw o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**98%** o gwynion ail haen wedi cael sylw o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**99%** o ohebiaeth gan ASau wedi cael sylw o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

**100%** geisiadau FOI wedi eu hateb o fewn 20 diwrnod (targed 90%)

Galwadau wedi eu hateb ar gyfartaledd mewn

**2:24** minutes — Sifil

**1:50** minutes — Troseddol

yn ein Canolfan Gyswllt Ganolog (targed llai na 02:50 munud)

**98%** o geisiadau DPA wedi eu hateb o fewn 40 diwrnod

Ein cyfradd gollwng galwadau wedi gostwng eto i:

**5.4%** Sifil

**6.9%** Troseddol (targed llai na 12%)

## 1 Mae Amcan Strategol 1 yn ymwneud â'r ymrwymiadau canlynol:

**Allwedd ar gyfer adrodd cerrig milltir**

✓ Wedi'i gyflawni ✗ Heb ei gyflawni

| | |
|---|---|
| ✓ | Ffocws ar ein pwrpas craidd o roi mynediad dibynadwy ac amserol at gymorth cyfreithiol |
| ✓ | Gwella ein prosesau busnes i sicrhau y gallwn gynnal ac adeiladu ar y gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol a ddarparwn i'n defnyddwyr a'n partneriaid yn y system gyfiawnder |
| ✓ | Gweithredu gwelliannau i'n systemau TG busnes gan gynyddu'r gwasanaethau digidol sydd ar gael i staff a defnyddwyr |
| ✗ | Caffael contractau cymorth cyfreithiol sifil newydd ar gyfer darparu cyngor wyneb yn wyneb a chyngor arbenigol drwy ein llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Sifil |

Eleni, rydym wedi ymestyn ein gwasanaeth teleffoni i ganoli galwadau troseddol yn un ganolfan gyswllt droseddol ganolog. Rydyn ni hefyd wedi trosglwyddo galwadau'r tîm Achosion Eithriadol a Chymhleth i'n tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid gan ei gwneud yn haws i ddarparwyr sy'n gweithio ar achosion cost uchel i gysylltu, a gwella'r gwasanaeth ymhellach i gwsmeriaid.

Rydyn ni'n parhau i weithredu gwelliannau i'n systemau TG busnes. O 2 Ionawr 2018 ymlaen daeth yn orfodol bod cyfreithwyr a bargyfreithwyr troseddol yn cyflwyno eu hawliadau am waith yn Llys y Goron drwy'r system Hawliadau Amddiffyn Llys y Goron (CCCD) ar-lein gan gyflymu amseroedd prosesu a chaniatáu cyfathrebu'n uniongyrchol â darparwyr.

Mae porth TG wedi'i uwchraddio hefyd wedi'i ryddhau gan ddarparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr mewnol ac allanol.

Rydyn ni'n parhau i wneud ein systemau'n fwy sefydlog drwy waith cynnal a chadw, gwelliannau a thrwy fonitro'n rhagweithiol. Mae hyn wedi gostwng nifer y digwyddiadau TG blaenoriaeth uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar gyfer staff rydyn ni wedi gwella'r trefniadau gweithio hyblyg drwy gyflwyno gliniaduron Windows 10 ac Office 365 gydag adnoddau cydweithredu newydd i 1,300 o staff ar draws 11 safle.

Cafodd y broses o gaffael y contractau cymorth cyfreithiol sifil ac wyneb yn wyneb ei gohirio oherwydd yr Etholiad Cyffredinol. Roedd y dyddiad cau ar gyfer tendro ar 10 Tachwedd 2017 a bydd y contractau'n dechrau ar 1 Medi 2018.

Amcan Trategol 2

## SO2: Creu cysylltiadau cryf ar draws y Llywodraeth a'r system gyfiawnder

## 2 Mae Amcan Strategol 2 yn ymwneud â'r ymrwymiadau canlynol::

- ✓ Moderneiddio'r ffordd y talwn i eiriolwyr amddiffyn troseddol ac ymgyfreithwyr troseddol drwy wneud newidiadau i Gynlluniau Ffioedd Graddedig Eiriolwyr ac Ymgyfreithwyr
- ✗ Gwneud newidiadau i gefnogi cyflwyno'r system Credyd Cynhwysol (UC)
- ✓ Gweithio â'n partneriaid cyfiawnder ar flaenoriaethau cam-drin domestig y Llywodraeth
- ✓ Gweithio â'n partneriaid ar draws y system gyfiawnder i wneud mwy o arbedion yn ein canolfannau cyswllt
- ✓ Gweithio â'n partneriaid cyfiawnder troseddol i gefnogi mwy o ddigideiddio yn y system cyfiawnder troseddol

Daeth diwygiadau'r Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Ymgyfreithwyr (LGS) i rym ar 1 Rhagfyr 2017. Dyma gam cyntaf proses ddiwygio mewn dau gam, yn gostwng y trothwy ar gyfer Tudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad (PPE) fel procsi ar gyfer cymhlethdod. Mae'r MoJ wedi ymrwymo i weithio gyda chyrff cynrychiadol i foderneiddio'r LGFS yn y tymor hir.

Daeth y Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Eiriolwyr (AGFS) i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r MoJ wedi gwrando'n ofalus ar bryderon y Bar troseddol ac yn gweithio gyda nhw i geisio eu datrys.

Nid yw'r MoJ eto wedi cyhoeddi canlyniad ei hystyriaeth o'r ymatebion i'w ymgynghoriad ar Gymhwyster i dderbyn Cymorth Cyfreithiol a Chredyd Cynhwysol. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r MoJ i sicrhau y byddwn yn barod i gyflawni unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Rydyn ni wedi gweithio â'n cydweithwyr yn yr MoJ i weithredu'r newidiadau i'r gofynion tystiolaeth Trais Domestig, gan gynnwys gwneud i ffwrdd â'r cyfyngiad amser gyda thystiolaeth ac ehangu'r mathau o dystiolaeth y gellir eu defnyddio. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 8 Ionawr 2018.

Mae'r gwaith wedi dechrau ar Raglen Trawsnewid yr Asiantaeth (ATP, mae manylion pellach ar dudalen 11). Mae gwaith ymchwil ar y cyd rhwng darparwyr a HMCTS wedi'i wneud a gwaith rhannu data hefyd wedi dechrau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

**Amcan Trategol 2**

Mae cysylltiadau agos wedi eu creu â Rhaglen Llwyfan Cyffredin y System Cyfiawnder Troseddol a rhaglenni digidol eraill ar draws yr MoJ. Mae'r adnodd gwirio budd-daliadau a grewyd gan yr LAA yn cael ei defnyddio ar draws yr MoJ a'r Llywodraeth yn gyffredinol.



Amcan Trategol 3

## SO3: Sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth a wnawn

### KPI: Rheolaeth Ariannol

- Costau gweinyddol yr Asiantaeth – Gwneud pethau'n fwy effeithlon a chreu arbedion costau fel bo'r Asiantaeth yn gallu darparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol o fewn y gyllideb weinyddol sydd ganddi.
- Gwariant y Gronfa Cymorth Cyfreithiol – Ymarfer stiwardiaeth ariannol ofalus o'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol gan ganolbwyntio ar adnabod arbedion ac atal twyll.
- Y gyfradd wallau net – Monitro pa mor gywir yr ydyn ni'n caniatáu ceisiadau grant am gymorth cyfreithiol ac yn prosesu biliau.

### Yn 2017-18

Fe wnaethom barhau i ddarparu stiwardiaeth gref, lleihau ein costau gweinyddol ac aros o fewn ein cyllideb Weinyddol

Yr amcan-gyfradd wallau net ar gyfer 2017-18 yw:




o'i gymharu â **0.8%** yn 2016-17

Am **fwy o wybodaeth** am wariant yr LAA, dylid cyfeirio at y Sylwebaeth ar Reolaeth Ariannol a'r Datganiadau Ariannol.

## 3 Mae Amcan Strategol 3 yn ymwneud â'r ymrwymiadau canlynol:

- ✓ Torri'n côt yn ôl y brethyn a gwario llai ar Weinyddu yn 17/18
- ✓ Gweithredu'r Contractau Troseddol newydd a ddechreuodd yn Ebrill 2017
- ✓ Cefnogi'r ffocws mwy hirdymor ar symleiddio ac awtomeiddio mwy ar ein gwasanaethau drwy ein portffolio o newidiadau a diwygiadau
- ✓ Parhau i gomisiynu gwasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr o ansawdd

Cafodd Contract Troseddol 2017 ei weithredu'n llwyddiannus ar 1 Ebrill yn dilyn proses gaffael a arweiniodd at 1,299 o sefydliadau yn cael eu contractio i ddarparu gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol Troseddol o dan y contract newydd. Un newid allweddol yng Nghontract Troseddol 2017 oedd cyflwyno telerau contract newydd i fynd i'r afael â 'rhith' gyfreithwyr, sydd efallai wedi cofrestru gyda chwmnïau ond sy'n gwneud dim neu fawr ddim gwaith cyfreithiwr dyletswydd. Mae'r rhestr o gyfreithwyr dyletswydd yn cynnwys 5,500 o aelodau sy'n 1,000 o aelodau'n llai o'i gymharu â'r rhestr aelodau flaenorol. Mae'r rhestr lai'n adlewyrchu ein gwaith ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith i chwynnu'r rhestr a thynnu unrhyw un nad oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

Amcan Trategol 4


## SO 4: Cyflawni ein potensial yn llawn drwy fod yn deg, balch a chefnogol

### KPI: Ein Pobl

- Absenoldeb Salwch - Monitro sawl diwrnod a gollir drwy salwch



collwyd **4.9** diwrnod ar gyfartaledd oherwydd salwch staff ar draws yr LAA (2016-17: 5.6)




O dan feincnod y Gwasanaeth Sifil o

**7.0 diwrnod**

## 4 Mae Amcan Strategol 4 yn ymwneud â'r ymrwymiadau canlynol:

- ✓ Datblygu a dechrau darparu ein Strategaeth Pobl
- ✓ Ymateb i ganlyniadau Arolwg Pobl 2016 drwy gryfhau'r arweinyddiaeth ar bob lefel yn y sefydliad, sgwrsio a thrafod pethau'n well, adeiladu ar sgiliau a gallu ein pobl a gweithio'n glyfrach gyda'n gilydd
- ✓ Parhau i greu gweithle cynhwysol, cynyddu amrywiaeth a gwreiddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ddyfnach wrth ddylunio a darparu cymorth cyfreithiol


Rydyn ni wedi ymgynghori ar, ac wedi lansio, ein Strategaeth Pobl sy'n nodi ein nodau a'n hamcanion am y pedair blynedd nesaf. Drwy ffrwd waith Dylunio Sefydliadol Rhaglen Drawsnewid yr Asiantaeth, rydyn ni wedi dechrau meddwl sut y dylai'r LAA edrych a theimlo ar ôl 2020 er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithlon a chlyfrach i gymdeithas, y cyhoedd a'n darparwyr cymorth cyfreithiol, gan sicrhau bod yr LAA yn aros yn lle gwych i weithio.

Eleni fe wnaethom lansio ein Strategaeth Dysgu a Datblygu sy'n amlinellu'r cyfleoedd sydd gan ein staff i ddatblygu fel unigolion ac adeiladu eu gyrfaoedd. I gryfhau'r arweinyddiaeth ar bob lefel, lansiwyd ein tudalen mewnrwyd newydd i Arweinwyr yr LAA, cynhaliwyd digwyddiad Arweinyddiaeth yr LAA i'n holl reolwyr llinell ynghyd â darparu mynediad gwell at gysgodi drwy ein cynllun Dilyn Arweinydd. Fe wnaethom gymryd rhan yn Rhaglen Ysgolion yr MoJ gan hyrwyddo ein prentisiaethau fel rhan o'r Rhaglen Symudedd Cymdeithasol.

## Amcan Trategol 4

Llwyddwyd i wneud cynnydd pellach gyda gweithio'n glyfrach drwy wreiddio gweithio'n hyblyg ar draws ein Timau Rheoli Achosion gan ennill achrediad Aur am Les.

**Cododd ein sgôr ymgysylltiad staff o 3 pwynt canran o 68% i 71%**





**Mae'r LAA yn y 10 uchaf**
(allan o 98 o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil a gymrodd ran)




Fel rhan o barhau i greu gweithle cynhwysol, cynyddu amrywiaeth a gwreiddio dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ddyfnach, lansiwyd ein hymgyrch Recriwtio Teg a Chynhwysol er mwyn cynnig mwy o weithio'n hyblyg a hyblygrwydd o ran lleoliad gwaith ar gyfer rolau newydd. Cyflwynwyd Paneli Recriwtio Amrywiaeth gyda chefnogaeth ein carfan recriwtio amrywiaeth, lansiwyd cyfres o sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb ar ragfarn ddifeddwl a chynhaliwyd Gweithdai Ymwybyddiaeth o Anabledd Cam II.

# Sylwebaeth ar Reolaeth Ariannol

Mae'r adran hon yn rhoi sylwebaeth i gyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol a'n perfformiad dros y flwyddyn a aeth heibio. Cyflwynir y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 64-98. Mae Nodyn 2 ar y Datganiadau Ariannol ar dudalen 80 yn rhoi'r costau gweithredu net am bob un o'r segmentau isod ac mae nodiadau 2-6 yn rhoi'r manylion incwm a gwariant. Nodir isod y symudiadau mwyaf, yn cymharu â 2017-18 a 2016-17, mewn gwariant ar gymorth cyfreithiol yn ôl cynllun:



# Eitemau o bwys yn Natganiad Sefyllfa Ariannol yr LAA

## Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill

Mae hyn ar gyfer gwaith a wnaed gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori ond sydd heb ei filio eto. Amcangyfrifir gwerth y gwaith anorffenedig hwn drwy nodi nifer yr achosion a ddechreuodd, ac yna amcangyfrif y gwaith a wnaed yn defnyddio proffiliau cost a pharhad achosion hanesyddol ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol unigol. Mae'r rhan fwyaf o rwymedigaethau'r LAA sy'n weddill yn rhai am filiau a dderbyniwyd ond heb eu prosesu eto, sy'n cael eu trin fel taladwyon masnachol, ynghyd â gwaith heb ei dalu a adroddwyd mewn hawliadau talu ar gyfrif, sy'n cael eu trin fel croniadau.

## Derbyniadau masnachol ac eraill

Mae hyn yn cynnwys arian sy'n ddyledus gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol a chwsmeriaid a dderbyniodd gymorth cyfreithiol, y rhan fwyaf yn ddyledus o dan daliad statudol. Mae taliadau statudol yn codi pan fydd cwsmeriaid cymorth cyfreithiol yn llwyddo i ennill neu gadw ased o ganlyniad i'r cymorth cyfreithiol a roddir iddynt. Yn yr amgylchiadau hyn rhaid i'r cwsmer ad-dalu cost eu cymorth cyfreithiol. Os nad oes gan y cwsmer ddigon o asedau gwerthadwy i ad-dalu'r cymorth cyfreithiol, mae'r LAA yn ennill gwarant dros y ddyled drwy gofrestru taliad ffurfiol dros yr ased perthnasol. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor hawl i ohirio gorfodi'r taliad hwn a chronni llog yn erbyn y ddyled ar log syml o 8% hyd nes y bydd yr hawlydd yn gallu ad-dalu'r ddyled. Mae'r ddyled naill ai'n cael ei hadennill pan werthir yr ased neu'n gynt os gall y cwsmer ad-dalu'r ddyled yn gynt. Anogir cwsmeriaid i ad-dalu'r ddyled cyn gynted ag y medrant i osgoi talu llog.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo i greu ystad gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn trawsnewid y ffordd y mae gweision sifil yn gweithio.

I leihau ein heffaith ar yr amgylchedd rydym wedi gweithio tuag at Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth ac ymrwymiadau'r Llywodraeth i ddarparu gweithrediadau a chaffael cynaliadwy.

## Mae ein strategaeth gynaliadwyedd yn canolbwyntio ar:

**Ymwybyddiaeth amgylcheddol** – mae lleihau ac ailgylchu gwastraff yn cael ei ymarfer yn gyson yn ein gwaith beunyddiol. Rydyn ni hefyd yn hyrwyddo arferion rheoli gwastraff a chaffael cyfrifol. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)yn rhoi manylion am Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer ystod o gynhyrchion. Mae gofynion Safonau Prynu'r Llywodraeth yn orfodol i ni eu dilyn ac yn cael eu cynnwys fel rhan o bob proses dendro lle maen nhw'n berthnasol.

**Ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd** – mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r MoJ yn parhau i reoli ac adolygu adeiladau a safleoedd risg uchel. Mae'n adnabod safleoedd sy'n fwy agored i effeithiau'r newid hinsawdd fel tymheredd, llifogydd ac amodau hinsawdd andwyol eraill. Gallwn felly werthuso'r defnydd o ynni er mwyn goleuo ein strategaeth weithredol yn well a gweithio'n fwy cynaliadwy.

**Digideiddio** – dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld trawsnewidiad digidol aruthrol gan symud o weithredu ar sail papur i fod bron yn ddi-bapur. Yn ystod tri chwarter cyntaf 2017-18, digwyddodd 97% o'r cyswllt cychwynnol gyda'r LAA, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau a biliau, ar-lein. Ceisiwn wneud pethau'n ddigidol yn ddiofyn gan barhau i chwilio am gyfleoedd i awtomeiddio ymhellach. Yn 2017 lansiwyd yr ATP sy'n ceisio cynyddu awtomeiddio ac effeithlonrwydd; dylai'r rhaglen wneud mwy eto i leihau gwastraff a gweithrediadau papur. Mae lleihad eto yn y defnydd o bapur, i lawr o 19 i 10 tunnell (£8,000 yn llai o wariant) gan ddangos y manteision parhaus o brosiectau a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rydyn ni wedi cyflwyno technoleg newydd i staff gan gynnwys Windows 10, Skype ac Office 365, drwy raglen Trawsnewid y Gweithle.

Yn ogystal, gwnaed ymdrechion i fod yn fwy effeithlon drwy rannu swyddogaethau gan gynnwys Shared Services Connected Ltd, y Tîm Cyfreithiol Canolog a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol sy'n rhoi cymorth i'r LAA, yr MoJ ac adrannau eraill y Llywodraeth. Mae hyn yn lleihau faint o staff, adnoddau a lle swyddfa sydd ei angen, ynghyd ag allyriadau. Yn 2017-18 symudodd cyn safleoedd yr LAA ym Mryste, Caerdydd a Manceinion i ganolfannau traws-lywodraethol er mwyn gallu rhannu adnoddau ag adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus.

Mae gan yr LAA Bencampwr Gwyrdd i helpu i godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd ac i wella arferion gweithio yn ein swyddfeydd. Mae staff yr LAA wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r MoJ fel ailgylchu a chompostio cwpanau bioddiraddadwy newydd yn 102 Petty France a rhaglenni bioamrywiaeth fel y Big Garden Bird Watch.

## Adrodd ar fesurau cynaliadwyedd amgylcheddol

### Ers 2016-17

**Nwy**
8 %
Lleihad o 8% mewn CO2e

**Trydan**
22%
Lleihad o 22% mewn MWh

**Defnydd o bapur**
47%
Lleihad o 47% yn y defnydd o bapur

**Gwastraff**
8%
Lleihad o 8% mewn tunelli

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| Ynni | | 2017-18 | 2016-17[2] | 2015-16[2] | 2014-15[2] |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion di-ariannol (tunelli cyfwerth â CO2 (tCO2e)) | Nwy – ynni anadnewyddadwy Sgôp 1 | 95 | 103 | 177 | 157 |
| | Trydan – ynni anadnewyddadwy Sgôp 2 | 404 | 521 | 661 | 605 |
| | Trydan – ynni adnewyddadwy Sgôp 2 | 128 | 156 | 198 | 181 |
| | Allyriadau o deithio busnes swyddogol - Sgôp 3 | 171 | 165 | 265 | 343 |
| | Cyfanswm | 798 | 945 | 1,301 | 1,286 |
| Dangosyddion di-ariannol (oriau Megawatt MWh) | Nwy – ynni anadnewyddadwy Sgôp | 514 | 560 | 959 | 853 |
| | Trydan – ynni anadnewyddadwy Sgôp [3] | 1,050 | 1,356 | 1,720 | 1,574 |
| | Trydan – ynni adnewyddadwy Sgôp[3] | 332 | 405 | 514 | 470 |
| | Total | 1,896 | 2,321 | 3,193 | 2,897 |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Gwariant crynswth ar ynn | 210 | 267 | 350 | 319 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol 1 | 619 | 502 | 896 | 1,459 |
| | Cyfanswm | 829 | 769 | 1,246 | 1,778 |

1 Heb gynnwys teithio ar gyfer staff a symudodd i Adran Graidd yr MoJ fel rhan o arweinyddiaeth drwy wneud. Am fwy o wybodaeth, wele nodyn 1z yn y datganiadau ariannol.
2 Mae canlyniadau'r blynyddol cymharol wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol.
3 Gwybodaeth ar gael ar gyfer: Caergrawnt, Bryste, Nottingham, Leeds, Newcastle, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Manceinion, Brighton, Caer a Chaerdydd.

Mae'r defnydd o ynni ac allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHG), o drydan a nwy a brynwyd ar gyfer gwresogi, i lawr o'i gymharu â'r llynedd. Mae ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Manceinion a Bryste wedi dechrau trefniadau llety newydd yn ystod y flwyddyn a bydd defnydd a chost ynni'n cael ei adrodd o hyn ymlaen ar sail rhannu lle. Nid oes gennym safle yng Nghaer ychwaith mwyach.

Mae'r cynnydd rhwng 2014-15 a 2015-16 drwy gydol yr adroddiad hwn o ganlyniad i effaith blwyddyn lawn symud Tîm Trethu Cenedlaethol a Thîm Ceisiadau Troseddol HMCTS i'r LAA. Yn ogystal roedd cynnydd o 10% mewn prisiau nwy rhwng 2014-15 a 2015-16.

Teithio

| Teithio | | 2017-18[1] | 2016-17[2] | 2015-16[2] | 2014-15[2] |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth allbwn (000 km) | Cerbydau modur | 255 | 366 | 513 | 561 |
| | Rheilffyrdd | 2,476 | 1,912 | 3,193 | 4,415 |
| | Hedfan | 55 | 64 | 153 | 237 |
| | Cyfanswm | 2,786 | 2,342 | **3,859** | **5,213** |
| Gwybodaeth allbwn (tCO2e) | Cerbydau modur | 47 | 67 | 94 | 102 |
| | Rheilffyrdd | 116 | 89 | 149 | 207 |
| | Hedfan | 8 | 9 | 22 | 34 |
| | Cyfanswm | 171 | **165** | **265** | **343** |

1 Heb gynnwys teithio ar gyfer staff a symudodd i Adran Graidd yr MoJ fel rhan o arweinyddiaeth drwy wneud. Am fwy o wybodaeth, wele nodyn 1z yn y datganiadau ariannol
2 Mae canlyniadau'r blynyddol cymharol wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol

Cafwyd lleihad sylweddol mewn allyriadau o gerbydau modur ond cynnydd mewn allyriadau rheilffordd wrth i fwy o staff ddewis teithio ar y trên. Ar y cyfan mae allyriadau i fyny o 4%.

Mae sawl ffactor yn gyfrifol am wario mwy ar reilffyrdd yn 2017-18, gan gynnwys lansio prosiectau newydd ar draws y DU. Yn nodedig, mae'r ATP yn gofyn teithio i wahanol safleoedd er mwyn deall y prosesau cyfredol ac adnabod arbedion. Nod y prosiect hwn yn y tymor hir yw creu sefydliad clyfrach sy'n gweithio'n fwy effeithlon. Mae symudedd cymdeithasol yn faes newydd arall i'r LAA a welodd gynnydd o ran nifer yn 2017-18 a lle mae angen teithio ledled y DU i sicrhau canlyniadau.

Mae sicrwydd gweithredol a rheoli contractau'n achosi lefel uchel o wariant ar y rheilffyrdd oherwydd ystod y gwaith ar draws y DU.


## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

| Dŵr[2] | | 2017-18 | 2016-17[1] | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth di-ariannol (metrau ciwbig) | Defnydd o ddŵr | 14,897 | 14,792 | 13,102 | 9,634 |
| Gwybodaeth ariannol (£000) | Costau cyflenwi dŵr | 21 | 21 | 20 | 14 |

1 Mae ffigurau cymharol 2016-17 wedi eu diwygio i adlewyrchu gwybodaeth fwy diweddar.
2 Gwybodaeth ar gael ar gyfer: Caergrawnt, Nottingham, Newcastle, Darlington, Abertawe a Cheltenham

Mae ein defnydd o ddŵr wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2016-17 a 2017-18

## Papur[1]




1 Yn cynnwys amcan-ddata ar gyfer chwarter 4 ar sail canlyniadau chwarter 3 oherwydd nid yw'r union ddata ar gael eto. "t" = tunelli

**Mae ein defnydd o bapur rhwng y blynyddoedd wedi lleihau'n sylweddol a'n gwariant wedi haneru rhwng 2016-17 a 2017-18. Mae hyn yn ganlyniad da iawn tuag at weithio'n ddigidol ac yn gwbl ddi-bapur. Rydyn ni'n caffael 100% o bapur gwastraff i'w argraffu'n fewnol ac mae cyhoeddiadau allanol yn cael eu hargraffu ar bapur gydag o leiaf 75% wedi'i ailgylchu.**

### Lleihau a rheoli gwastraff

| Gwastraff[2] | | 2017-18 | 2016-17[1] | 2015-16[1] | 2014-15[1] |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth di-ariannol (tunelli) | Gwastraff wedi'i dirlenwi | 276 | 298 | 345 | 298 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu neu ei ailddefnyddio | 335 | 366 | 692 | 618 |
| | Cyfanswm | 611 | 664 | **1,037** | **916** |
| Gwybodaeth ariannol (£000) | Gwastraff wedi'i dirlenwi | 30 | 32 | 37 | 32 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu neu ei ailddefnyddio | 4 | 5 | 9 | 8 |
| | Cyfanswm | **34** | **37** | **46** | **40** |

1 Mae canlyniadau'r blynyddol cymharol wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol.
2 Gwybodaeth ar gael ar gyfer: Caergrawnt, Nottingham, Leeds, Newcastle, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Brighton a Llundain.

Mae gwariant ar wastraff wedi gostwng oherwydd contractau rheoli cyfleusterau newydd 2017/18. Rydyn ni'n parhau i ddarparu biniau ailgylchu hawdd eu defnyddio ym mhob swyddfa i annog tirlenwi llai ac ailddefnyddio adnoddau prin. Dylai mwy o weithio'n ddigidol a llai o bapur hefyd leihau gwastraff yn y dyfodol.

# Edrych i'r dyfodol

Rydyn ni'n parhau i wella ein systemau a'n trefniadau rheoli er mwyn cyflawni, yn llwyr ac yn gywir, ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol. Yn Ebrill 2018 lansiodd yr MoJ strategaeth ddigidol newydd fydd yn cyfrannu mwy eto at wneud arferion gweithio'n fwy effeithlon.

Ein strategaeth gynaliadwyedd yw parhau i weithio'n agos â Thîm Datblygu Cynaliadwy'r MoJ tuag at gyflawni Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth 2016-2020. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weithio ar ostwng allyriadau GHG, gwella ein rheolaeth o wastraff, defnyddio llai o ddŵr a phrynu mwy o gynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy ac effeithlon er mwyn sicrhau ein bod yn effeithio cyn lleied â phosib ar yr amgylchedd yn y tymor hir.

Mae ein Tîm Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Cyfleusterau'n parhau i ganfod ffyrdd y gallwn leihau ein hôl-troed carbon drwy uwchraddio cyfleusterau.

Rydyn ni hefyd yn symleiddio ein hystad ymhellach i leihau faint o le a ddefnyddiwn drwy gynnig trefniadau gweithio mwy hyblyg. Bydd yn arwain at lai o deithio ac yn lleihau faint o ynni swyddfa a ddefnyddir.

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Shaun McNally CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

13 Mehefin 2018

# Adroddiad Atebolrwydd



# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Rhagarweiniad

Mae ein dogfen Fframwaith yn egluro'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd, cyllido, staffio a gweithrediadau'r sefydliad; mae ar gael i'w darllen yn llawn yn https://www.gov.uk/government/organisations/legal-aid- agency/about/our-governance#laa-framework-document

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu (AO) yr LAA, fi sy'n gyfrifol am sut y mae'r Asiantaeth yn defnyddio adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn y Fframwaith. Mae cyhoeddiad Trysorlys EM 'Managing Public Money' hefyd yn egluro beth yw cyfrifoldebau AO.

Fel AO, fi sy'n bersonol gyfrifol am ddiogelu'r arian cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdano, am sicrhau bod yr arian hwnnw'n cael ei wario'n briodol a chywir ac am weithrediadau a rheolaeth o'r LAA o ddydd i ddydd. Yn ogystal, rhaid i mi sicrhau bod yr LAA yn cael ei rhedeg yn unol â'r safonau o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol.

Mae fy adroddiad yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle i reoli unrhyw risg i gyflawni targedau ac amcanion yr LAA ac i ddarparu rheolaeth a goruchwyliaeth effeithiol dros asedau ac adnoddau'r Asiantaeth. Mae'n cynnwys

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr;
- Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu;
- Datganiad Llywodraethu.

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nodir cyfansoddiad Bwrdd yr LAA, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT) ar dudalen 37. Gyda'i gilydd, nhw sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol ar gyfer yr LAA ac am fonitro ei pherfformiad yn erbyn ei hamcanion.

**Datganiad o Fuddiannau'r Cyfarwyddwyr**
Mae'n ofynnol bod Aelodau Bwrdd Anweithredol (NEBM) yn datgan unrhyw wrthdaro budd a rolau cyfarwyddwr eraill pan benodir hwynt. Mae hefyd yn ofynnol i holl Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro budd na chawsant eu datgelu'n flaenorol. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ychwanegol yn 2017-18.

Digwyddiadau Data Personol
Ystyriwyd a oedd unrhyw ddigwyddiad data personol mor ddifrifol fel y dylid ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Yn 2017-18, cafodd un digwyddiad data personol ei adrodd i'r ICO. Rhoddir mwy o fanylion am hyn ar dudalen 44.

Mae'r Datganiad Llywodraethu ar dudalennau 33-45 yn ystyried arferion pellach o ran sicrhau gwybodaeth a diogelu data yn yr LAA.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i baratoi datganiad cyfrifon am bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar y sail a nodir yn eu Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn deg a chywir am fusnes yr LAA ynghyd ag alldro adnoddau net, adnoddau a wariwyd ar amcanion, newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr a llifau arian yr Asiantaeth am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu (AO) gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2017-18, ac yn enwedig:

- Rhaid talu sylw i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb;

- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;

- Nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;

- Paratoi'r Cyfrifon ar sail busnes hyfyw;

- Mae'r AO yn cadarnhau, hyd y gŵyr ef, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr LAA yn ymwybodol ohoni a'i fod wedi cymryd pob cam i ddod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr LAA yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a

- Mae'r AO yn cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar y cyfan, yn deg, cytbwys a dealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sydd angen eu gwneud i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn AO ar yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Disgrifir cyfrifoldebau AO, gan gynnwys sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol a chywir, y cedwir cofnodion priodol ac y diogelir asedau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, yng nghyhoeddiad 'Managing Public Money' Trysorlys EM.

# Datganiad Llywodraethu

## Rhagarweiniad

Mae'r datganiad hwn yn trafod fy ail flwyddyn fel Prif Weithredwr ac AO yr LAA. Rwy'n parhau i fod yn gyfrifol am gynnal system drylwyr o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo gyda chyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr LAA, ac am ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yng nghyhoeddiad 'Managing Public Money' Trysorlys EM.

Rwyf hefyd yn parhau i gyflawni'r rôl o Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC) a ddynodwyd i mi gan yr Arglwydd Ganghellor. Fel DLAC rwyf yn cael fy nghefnogi gan Fwrdd yr LAA a'r Tîm Cyfreithiol Canolog i sicrhau bod arferion cadarn yn eu lle i gynnal proses annibynnol o wneud penderfyniadau cymorth cyfreithiol. Mae fy Adroddiad Blynyddol fel DLAC yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau hyn, y gwaith a wnaed ar fy rhan a'r prosesau a ddilynwyd.

## Ein Perthynas â’r Senedd

Mae’r LAA yn cael ei chraffu gan y Senedd. Mae hyn yn cynnwys gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC), y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (JSC) a’r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO). Mae’r MoJ, a’r LAA fel rhan annatod o’r adran, wedi parhau i weithio ar draws y system gyfiawnder yn rhannu arferion gorau ac yn adnabod a gweithredu arbedion i wella’r gwasanaeth a roddwn i’n defnyddwyr.

## Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Mae gan yr LAA weithdrefn gwyno dwy haen yn ei lle’n cynnig proses lle mae cwynion yn cael eu hadolygu’n wrthrychol cyn i’r cwynwr benderfynu a yw am gyfeirio'r mater i’r PHSO drwy eu Haelod Seneddol lleol neu beidio. Lle bo’n briodol bydd yr LAA yn ymgysylltu’n uniongyrchol â swyddog cyswllt y PHSO er mwyn:

- Trafod cynnydd achosion unigol;
- Diweddaru ar newidiadau: er enghraifft, newid polisi a’r effaith bosib ar y PHSO;
- Sicrhau adborth adeiladol a rhannu arferion gorau dwy ffordd.

Mae’r LAA yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â fforwm cwynion traws-MoJ oherwydd mae’r themâu a’r berthynas waith yn debyg. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni weithio’n gydweithredol er mwyn gwella ein gwasanaeth trin cwynion yn barhaus.

Yn 2017-18 cafodd yr LAA ei hysbysu o 16 atgyfeiriad cwyn. O’r rhain, derbyniwyd chwech i ymchwilio’n ffurfiol iddynt. Daeth y PHSO i gasgliad ar chwe achos yn 2017-18 (gall casgliadau gymryd blynyddoedd lawer ac nid oes cysylltiad uniongyrchol â'r cwynion a godir neu a gwblheir ym mhob blwyddyn ariannol). O’r achosion lle daethpwyd i gasgliad yn eu cylch, ni dderbyniwyd yr un yn llawn, derbyniwyd tri’n rhannol ac ni dderbyniwyd tri. O’r argymhellion a wnaed, mae pob un naill ai wedi’u cyflawni neu yn y broses o gael eu gweithredu o fewn yr amser gofynnol. Wrth ddod ag ymchwiliad i ben, bydd yr LAA yn cymryd y camau angenrheidiol i weithredu argymhellion y PHSO. Gall hyn oleuo newidiadau i brosesau a ffyrdd o weithio a chael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

## Fframwaith Llywodraeth

Mae'r strwythur llywodraethu i'w weld ar dudalen 36, wedi'i sefydlu gydag ymrwymiad i symleiddio ein llywodraethu a sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth ddigonol o flaenoriaethau darparu'r LAA. Cafodd ei ddatblygu'n unol ag egwyddorion canllaw ymarfer gorau Trysorlys EM 'Corporate Governance In Central Government Departments: Code of Good Practice' (y Cod), i'r graddau y mae'n berthnasol i Asiantaeth Weithredol.


Mae'r strwythur llywodraethu wedi gweithio'n effeithiol ac yn ôl y bwriad gan ddarparu cymorth cryf i mi fel AO a hefyd i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT) ehangach o ran cyflawni ein cyfrifoldebau.

Fodd bynnag, i sicrhau bod y strwythur yn aros yn effeithiol ac ymatebol i newidiadau yn yr LAA a'r MoJ dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adolygu Fframwaith Gweithredu'r Bwrdd ymhellach. Nid oedd yr adolygiad yn argymell unrhyw newid o bwys i'r Fframwaith gan fy modloni bod y strwythur a'r fframwaith yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas.

Er i'r adolygiad gadarnhau bod y strwythur presennol yn effeithiol, rwyf eleni wedi cytuno i weithredu newidiadau i'r fframwaith llywodraethu yn unol ag agenda newid yr LAA ac er mwyn gallu gwneud penderfyniadau allweddol mewn ffordd symlach a mwy effeithlon. Gweithredir y newidiadau hyn yn fuan yn 2018-19.

.

## Y Strwythur Llywodraethu



## Aelodaeth Pwyllgorau a Phresenoldeb

| AELODAU | RHYW | BWRDD YR LAA | | ELT | | ARAC | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau | | Aelod | Person Gwadd | Aelod | Person Gwadd | Aelod | Person Gwadd |
| **EXECUTIVE BOARD** | | | | | | | |
| Shaun McNally CBE<br>Prif Weithredwr, LAA | M | 11 of 11 | | Chair | | | Y |
| Ruth Wayte<br>Prif Gynghorydd Cyfreithiol i'r LAA a Chadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau | F | 8 of 11 | | Y | | | |
| James McEwen<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol (tan 08.09.17 | M | 4 of 6 | | Y | | | Y |
| Jane Harbottle<br>Pennaeth Rheoli Achosion Sifil a Throseddol<br>Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau | F | 9 of 11 | | Y | | | |
| David Thomas<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd<br>Cadeirydd y Pwyllgor Newid | M | 11 of 11 | | Y | | | Y |
| Adrian Hannell<br>Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro<br>Cadeirydd y Pwyllgor Buddsoddiadau | M | 8 of 11 | | Y | | | Y |
| Sally Jones<br>Pennaeth y Canol Corfforaethol<br>Cadeirydd y Pwyllgor Pobl (tan 20.09.17) | F | 6 of 6 | | Y | | | |
| Paul Henson<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro<br>Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Risg (o 26.10.17) | M | 5 of 5 | | Y | | | |
| Samantha Milton<br>Pennaeth y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus<br>Cadeirydd y Pwyllgor Pobl (o 26.10.17) | F | 4 of 5 | | Y | | | |
| **BWRDD ANWEITHREDOL** | | | | | | | |
| John Grosvenor<br>Cyllid | M | 9 of 11 | | | | Chair<br>3 of 5 | |
| Andrew Lockley<br>Cyfreithiol | M | 10 of 11 | | | | 5 of 5 | |
| Eric Gregory<br>Masnachol | M | 9 of 11 | | | | 5 of 5 | |
| **ERAILL** | | | | | | | |
| Pennaeth TG, Digidol a Newid | M | | Y | Y | | | |
| Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad | F | | Y | Y | | | |
| Pennaeth Datblygu a Chomisiynu Gwasanaethau | F | | | Y | | | |
| Pennaeth Rheoli Contractau | M | | | Y | | | |
| Cyfarwyddwr AD yr MoJ dros Wasanaethau Corfforaethol a'r LAA | F | | Y | Y | | | |
| Cyfarwyddwr (MoJ), Polisi Cymorth Cyfreithiol | M | | Y | | | | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr (MoJ), Polisi Cymorth Cyfreithiol | F | | Y | | | | |
| Cyfarwyddwr Cyffredinol ar Gyllid (MoJ) | M | | Y | | | | |

## Rolau a chyfrifoldebau ar y pwyllgorau

### Bwrdd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae Bwrdd yr LAA yn fy nghefnogi i fel AO, â fy uwch-swyddogion eraill, gyda chyfarwyddo busnes yr LAA. Y Bwrdd yn y pen draw sy'n gyfrifol am roi cyngor ar lywodraethu a chyfeiriad strategol i'r LAA. Mae rhai o gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cael eu dirprwyo i'w bwyllgorau, wele isod (tud. 38-39).

Nid yw cyfansoddiad y Bwrdd wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n cynnwys:

- Y Prif Weithredwr;
- Aelodau Bwrdd Anweithredol (NEBM);
- Y Prif Gynghorydd Cyfreithiol;
- Cyfarwyddwr Cyllid

- Cadeiryddion y pum Pwyllgor.

Er bod y rolau ar y Bwrdd wedi aros yr un fath, cafwyd rhai newidiadau o ran unigolion gyda James McEwen a Sally Jones yn gadael yr LAA, a Samantha Milton a Paul Henson yn ymuno.

Cynhaliwyd 11 cyfarfod Bwrdd a dau gyfarfod strategol o'r Bwrdd yn 2017-18. Roedd ffocws y cyfarfod strategol cyntaf ar archwaeth risg yr Asiantaeth gyda'r ail, a gynhaliwyd nes ymlaen yn y flwyddyn, yn trafod yr egwyddorion dylunio a fyddai'n ategu gwaith Dylunio Sefydliadol yr Asiantaeth yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi adolygu agweddau allweddol ar berfformiad yr LAA gan ganolbwyntio ar gyflawni, risg a mesurau gwella. I wneud hyn defnyddiwyd adroddiadau cyllid a pherfformiad y rheolwyr gan ddefnyddio sicrwydd o waith yr Archwilwyr Mewnol bod mesurau ariannol effeithiol yn eu lle i ategu'r data yn yr adroddiadau hyn. Mae'r Bwrdd wedi ymddiddori mewn ymgysylltiad staff hefyd gan fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau a chraffu Cynllun Pobl 2018-19. Ar ôl gwerthuso ei effeithiolrwydd ei hun, cytunodd y Bwrdd y byddai'n gwella llif y wybodaeth iddo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC). Penderfynodd y Bwrdd hefyd gomisiynu gwaith i ddiweddaru a gwella cynefino ar gyfer y Bwrdd er mwyn rhoi'r gefnogaeth orau bosib i Aelodau newydd. Dros y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi parhau i wneud ei Aelodau'n fwy gweladwy drwy ymweld â gwahanol swyddfeydd yr LAA.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r ARAC yn cynghori'r Bwrdd ar faterion llywodraethu a rheoli risg yn defnyddio ei arbenigedd proffesiynol mewn materion cyllid, cyfreithiol a masnachol i herio a chefnogi'r LAA. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Aelod NEBM, sydd hefyd yn Aelodau o Fwrdd yr LAA. Nid oes ganddynt gyfrifoldebau gweithredol.

Mae'r ARAC wedi parhau i oruchwylio a herio datganiadau ariannol yr LAA yn gryf ynghyd â'r gyfradd wallau, diogelwch data a'r trefniadau parhad busnes, gan dderbyn adroddiadau sicrwydd gan reolwyr ac archwilwyr mewnol ac allanol.

Wrth ymarfer eu dyletswyddau a'u hatebolrwydd, mae'r Bwrdd a'r ARAC wedi cefnogi, herio a rhoi arweiniad sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT)

Yr ELT yw uwch bwyllgor yr Asiantaeth ac yn bennaf gyfrifol am redeg yr LAA. Mae'r ELT yn gwneud penderfyniadau ar strategaeth a rheolaeth o'r LAA, gan gynnwys ynghylch gallu a chapasiti'r LAA yn y dyfodol er mwyn gallu darparu cynlluniau adrannol a diwygio'r Llywodraeth a hefyd yn gyfrifol am reolaeth strategol o risgiau corfforaethol.

Yr ELT sy'n bennaf gyfrifol em oruchwylio gweithrediad yr LAA ac fe'i cefnogir yn ei gyfrifoldebau gan bump o bwyllgorau a sefydlwyd i hwyluso trafodaethau dyfnach a mwy pwrpasol am faterion penodol a hefyd i gwblhau tasgau wedi eu dirprwyo gan yr ELT.

- Y Pwyllgor Gweithrediadau: Yn gwneud penderfyniadau ar weithredu cynigion polisi ac ar optimeiddio prosesau busnes i ddarparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac effeithiol – gan gynnwys y rhyngwyneb â darparwyr. Yn adolygu a herio perfformiad heb ei gyfyngu i ddangosyddion KPI allanol, ac yn goruchwylio rheolaeth o risgiau gweithredol.
- Y Pwyllgor Cyllid a Risg: Yn cefnogi'r ELT yn ei gyfrifoldebau goruchwylio drwy ganolbwyntio ar brosesu rheolaeth ariannol a rheoli risg yn yr LAA. Mae'n gorff cynghori a herio sy'n cefnogi'r Bwrdd, yr ELT, yr ARAC a'r busnes gyda rheoli risg.
- Y Pwyllgor Pobl: Yn cyfrannu mewnbwn busnes adeiladol, yn gwneud penderfyniadau ac yn rhoi sicrwydd bod yr LAA yn cyflawni ei chynlluniau llesiant a gallu a'i strategaeth pobl.
- Y Pwyllgor Buddsoddiadau: Yn craffu a chymeradwyo achosion busnes gan gynnwys dyraniad cyllid.
- Y Pwyllgor Newid: Yn rhoi sicrwydd ar gyfer portffolio newid yr LAA i ddarparu'r manteision mwyaf i'r sefydliad a'i bobl

## Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i dyfeisio i reoli risg ar lefel resymol yn lle dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Ar sail fframwaith sicrwydd yr LAA rwyf yn weddol sicr bod y system rheolaeth fewnol yn effeithiol.

Fel yr eglurir yn ein model gweithredol uchod, rwy'n cael fy nghefnogi yn y gwaith o reoli risg a stiwardio adnoddau'r LAA gan y Bwrdd, yr ELT a'r Cadeiryddion Pwyllgor.

Rwyf wedi derbyn sicrwydd ysgrifenedig gan fy Nirprwy Gyfarwyddwyr bod y prosesau rheoli risg yn effeithiol, ar ffurf datganiadau sicrwydd blynyddol. Mae'r MoJ hefyd yn darparu llwyfan cyffredin o bolisïau, arbenigedd a systemau digidol, ariannol ac Adnoddau Dynol a ddefnyddiwn lle bo'n berthnasol. Rwyf hefyd yn derbyn gwasanaeth archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth sy'n rhoi sicrwydd annibynnol i mi fod amgylchedd llywodraethu a rheoli risg fy sefydliad yn effeithiol.

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Yn ystod rhaglen archwilio 2017-18, roedd tri archwiliad a sgoriwyd fel rhai 'Cyfyngedig' a'r ddau arall yn 'Cymedrol' neu'n 'Sylweddol'. O'r camau i'w cymryd roedd 9 yn flaenoriaeth uchel a 28 yn flaenoriaeth ganolig. Ar y cyfan mae hyn yn welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ei hadroddiad blynyddol i'r LAA, dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod rheolwyr wedi gweithio'n rhagweithiol i dderbyn a gweithredu argymhellion allweddol i wella mesurau'n deillio o waith yr Archwilwyr Mewnol. Mae camau gweithredu'r Rheolwyr yn parhau i gael eu monitro gan Sicrwydd yr LAA a'u hadrodd i'r ARAC.

Ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ei gwybodaeth am fframwaith llywodraethu, mesurau rheoli a rheoli risg yr LAA a'i phresenoldeb yng nghyfarfodydd yr ARAC, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cynnig lefel gymedrol o sicrwydd.

## Asesiad o faterion a risgiau sylweddol

Fel sefydliad rydyn ni wedi parhau i reoli'r risgiau parhaus a chynhenid i gyflawni ein hamcanion strategol. Mae'r ARAC, yr ELT a'r Bwrdd wedi parhau i adolygu a herio'r cynnydd gyda rheoli ac atal y risgiau a gofnodir yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol yr LAA sydd wedi canolbwyntio ar y prif risgiau mewnol, allanol a strategol i gyflawni ein hamcanion. Mae hyn wedi cynnwys risgiau yng nghyswllt, ond heb eu cyfyngu i, sefyllfa ariannol, systemau, sefydlogrwydd marchnad, portffolio newid a strwythurau a gweithrediadau'r LAA.

Mae ein ffocws yn parhau i fod ar weithio ochr yn ochr â'n darparwyr cymorth cyfreithiol i greu marchnad sefydlog drwy: ymateb i heriau cyfreithiol i'n penderfyniadau cyllido; rheoli ein dibyniaeth ar seilwaith TG yr MoJ a systemau etifeddol yr LAA; a lleihau'r tebygolrwydd o wallau a thwyll yn y Gronfa Cymorth Cyfreithiol.

Sefydlogrwydd y farchnad a systemau
Daeth Contract Troseddol 2017 i rym ar 1 Ebrill 2017. Dyfarnwyd contractau i 1,299 o ddarparwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol.

Sefydlwyd prosiect yn 2017 i sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil hyd nes y cyflwynir Contract Sifil 2018 a ddaw i rym ar 1 Medi 2018. Roedd hyn yn cynnwys cynnal ymgynghoriad byr â chyrff cynrychiadol ar gynnwys y contract sydd mewn golwg, cyn dechrau proses o dendro anghystadleuol ym mis Medi 2017. Derbyniodd yr LAA fidiau gan dros 1,725 o sefydliadau ac mae wrthi'n asesu'r bidiau hyn cyn hysbysu'r darparwyr llwyddiannus.

**Gwasanaethau TG**
Mae dros 97% o bob cyswllt cychwynnol â'r LAA bellach yn digwydd ar-lein. Gall tarfu ar ein systemau TG felly effeithio'n sylweddol ar gyflwyno a phrosesu ceisiadau a thalu am gymorth cyfreithiol, ar forâl staff, gwasanaethau i'r cyhoedd ac ar ein perthynas â'n rhanddeiliaid.Mae ein timau Rheoli

Digwyddiadau a Chymorth Gwasanaethau Byw'n parhau i weithio ar ein prosesau parhad busnes i leihau unrhyw effaith a datrys unrhyw aflonyddwch gyda'n darparwyr. Mae gennym brosesau wrth gefn i sicrhau y gallwn flaenoriaethu achosion brys ar adegau o aflonyddwch.

Rydyn ni bellach yn monitro ceisiadau'n fwy rhagweithiol i sicrhau y gallwn ganfod unrhyw broblemau a'u datrys cyn gynted â phosib.

Rydyn ni'n parhau i gywiro gwendidau yn ein systemau gan uwchraddio ac atgyweirio a gwneud gwelliannau pellach i sefydlogrwydd ein systemau a boddhad ein cwsmeriaid; a pharhau i wella ansawdd ein systemau digidol. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno'r system CCCD a ddefnyddir gan ddarparwyr troseddol; mae wedi pasio safon asesu Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ac wedi derbyn adborth rhagorol gan ei defnyddwyr. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda darparwyr, gwerthwyr meddalwedd, asiantaethau eraill y Llywodraeth a defnyddwyr ein systemau i wella gwasanaethau. Mae nifer y digwyddiadau a methiannau blaenoriaeth uchel wedi parhau i ostwng ers dwy flynedd. Mae porth ar-lein newydd yr LAA wedi rhoi mynediad llawer mwy sefydlog a dibynadwy i'n defnyddwyr allanol. Mae gennym hefyd draciwr gwasanaethau byw i roi gwybod i ddefnyddwyr am unrhyw fethiant a gwaith cynnal a chadw. Ond o ran seilwaith, nid da lle gellir gwell. Yn 2018-19 byddwn yn dechrau symud ein rhaglenni i'r Cwmwl a bydd trefniadau gwe-letya modern i ddatrys llawer o'r gwendidau hyn gan sicrhau systemau gwydn sy'n perfformio'n dda.

**Seiber Ddiogelwch**

Wrth i ni ddibynnu mwy ar fynediad parhaus at ein systemau ar-lein i weinyddu cymorth cyfreithiol, daw'n fwyfwy pwysig sicrhau bod prosesau a seiber ddiogelwch effeithiol yn eu lle.

Mae'r LAA yn mabwysiadu dull Digidol ehangach yr MoJ o reoli risgiau seiber ddiogelwch gan warchod gwasanaethau craidd drwy wella'r dechnoleg yn unol â pholisïau a chanllawiau'r Ganolfan Seiber Ddiogelwch Genedlaethol.
Mae gan dîm TG a Digidol yr LAA hefyd Ymarferydd Sicrhau Gwybodaeth Dechnegol sy'n adrodd i'n Prif Swyddog Diogelwch gan weithio â thimau cynhyrchion yn y maes hwn. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi adolygu ein gweithdrefnau a'n prosesau diogelu TG gan gynnwys cynllun gwelliannau i helpu i atal ymosodiadau ac i liniaru yn erbyn effeithiau ymosodiad.

I asesu pa mor barod yr ydym am seiber-ymosodiad, fe wnaethom hefyd gynnal ymarfer i brofi ein hymateb i ymosodiad. Roedd yn ymarfer effeithiol a defnyddiwyd yr allbwn i helpu i gryfhau ein cynlluniau ymateb.

**Llwyfan Cyd-Wasanaethau a Gweithredu Safonol**

Ar ôl i'r LAA fudo i'r Llwyfan Gweithredu Sengl (SOP) traws-lywodraeth newydd yn Ionawr 2017, ynghyd â chyrff eraill y Grŵp MoJ, roedd angen gwneud mwy o waith i optimeiddio a symleiddio ein mesurau. Dim ond ar gyfer costau rhedeg, nid gwariant Cronfa Cymorth Cyfreithiol, yr LAA y defnyddir y system, felly dim ond cyfran fach o'r gwariant a adlewyrchir yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol hyn. Yn 2017-18 bu'r LAA yn gweithio gyda'r MoJ a Shared Services Connected Limited (SSCL) i ddeall y problemau ac

adnabod sut y gellid gwella ein gwasanaethau.
Bydd yr ELT, gyda chymorth gan y Pwyllgorau Pobl, Cyllid a Risg, yn parhau i oruchwylio gwasanaethau a ddarperir gan SSCL.

**Cyfradd wallau**
Mae cymhlethdod cymorth cyfreithiol yn golygu bod risg gynhenid o wall oherwydd asesiadau cymhwyster anghywir neu daliadau anghywir. Mae hyn yn cael ei graffu'n barhaus a'i reoli fel rhan o'n trefniadau stiwardio. Mae ein prosesau ceisiadau a thaliadau'n destun newidiadau polisi a gweinyddol parhaus. Mewn ymateb i hyn, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau gwallau mewn ffordd sefydlog a chynaliadwy drwy weithio'n agos â'n darparwyr a chydweithredu ar draws ein timau rheoli contractau, rheoli achosion, cyllid a digidol i adnabod a cheisio datrys y pethau sy'n achosi'r gwallau hyn a chryfhau ein mesurau rheoli mewnol a chydymffurfio ar ran ein darparwyr. Lle'r ydyn ni'n canfod bod taliad yn anghywir, rydyn ni'n adolygu ac adennill y taliad hwnnw.

Materion penodol i'w hamlygu eleni:

- Risg barhaus o wall gydag asesiadau Troseddol Uwch oherwydd y drafferth gyda dilysu Tudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad a gyflwynir yn electronig. Rydyn ni wedi rhyddhau canllawiau newydd ar ddilysu'r deunydd hwn a'u bwydo i mewn i ailddylunio'r cynlluniau ffioedd gan helpu i leihau effaith y broblem hon;
- Gwallau mewn biliau Cynrychiolaeth Sifil, sy'n cael sylw gennym drwy wella ein mesurau rheoli ac addysg i ddarparwyr;
- Mae llai o wallau Troseddol Is yn 2017-18. Mae'r mesurau lliniaru wedi cynnwys archwilio darparwyr yn fwy manwl, adennill mwy o ordaliadau ac addysg i ddarparwyr;
- Ein cyfradd wallau Help Cyfreithiol net yn 2017-18 oedd 0.70% sy'n is na'r targed o 0.75% am y flwyddyn

Amcan-gost crynswth ein gwallau oedd £22.0m (2016-17: £18.3m). Rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar adennill gordaliadau cymorth cyfreithiol, sydd wedi helpu i leihau'r lefel wallau fwyaf tebygol i sefyllfa net o £13.7m neu 0.8% o'r gwariant (2016-17: £12.9m neu 0.8% o'r gwariant).
Ar sail ein technegau samplau ystadegol, rydyn ni'n 95% hyderus bod y lefel wallau wirioneddol rhwng 0.5% a 1.2% o'r gwariant ar gymorth cyfreithiol.

**Twyll**
Mae diweddaru ar y sefyllfa Gwrth-Dwyll yn eitem sefydlog ar yr ARAC a'r materion mwyaf o bwys yn derbyn sylw gweithredol gan y Bwrdd. Mae ein polisi twyll a'n strategaeth gwrth-dwyll yn cael eu hadolygu'n flynyddol gydag adroddiad misol ar y cynllun gweithredu twyll a gwaith gwrth-dwyll. Rydyn ni'n codi ymwybyddiaeth pobl a rhanddeiliaid o dwyll drwy ddefnyddio cyflwyniadau, cyngor ac erthyglau ar y fewnrwyd.

O ganlyniad i waith gwrth-dwyll yr LAA yn 2017-18, llwyddodd yr Asiantaeth i adennill neu ddiogelu

£759,000

o gyllid cyhoeddus

o'i gymharu â £1.46 miliwn

Yn 2017-18 fe wnaeth yr LAA barhau gyda'i dull o ddelio â risg drwy atal, adnabod ac ymchwilio i amheuon o dwyll.

*Roedd y swm a gafodd ei adennill yn 2016-17 yn cynnwys adennill dros £800 mil oddi wrth un darparwr cymorth cyfreithiol. Oherwydd natur gwaith y tîm Atal Twyll gall adennill symiau sylweddol aflunio cymariaethau blwyddyn wrth flwyddyn

Yn Rhagfyr 2017 daeth yr LAA yn gorff lletya ar gyfer Swyddogaeth Gwrth-Dwyll ac Ymchwiliadau'r MoJ i gydnabod yr arbenigedd a'r gwaith da sydd wedi'i wneud yn yr LAA. Rydyn ni'n parhau i feithrin perthynas waith agos â'r DWP, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, HMRC a rhanddeiliaid ehangach i gasglu gwybodaeth, rhannu data a dysgu mwy gan eraill i oleuo ein gwaith atal ac erlyn. Rydyn ni wedi cydweithredu ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r CPS i sicrhau bod safonau ac arferion cenedlaethol ar baratoi ffeiliau achos yn cael eu dilyn. Rydyn ni'n cymryd rhan yn y Rhaglen Dwyll Genedlaethol ac yn gweithio'n agos â Swyddfa'r Cabinet ar wahanol fesurau canfod ac atal twyll.

**Chwythu'r Chwiban**

Gallaf gadarnhau na wnaethom dderbyn unrhyw achos o chwythu'r chwiban yn yr LAA ym mlwyddyn ariannol 2017-18.

Cymrodd yr Asiantaeth ran yn niwrnod ymwybyddiaeth chwythu'r chwiban y Gwasanaeth Sifil ym Medi 2017, oedd yn cynnwys digwyddiadau a gwybodaeth i staff, a'r adnoddau ar gael i staff ar fewnrwyd yr LAA. Mae'r adnoddau'n cynnwys fideo o gyflwyniad gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Bu'r MoJ, a staff yr LAA, hefyd yn hyrwyddo chwythu'r chwiban fel rhan o wythnos ymwybyddiaeth o dwyll a chwythu'r chwiban ym mis Mawrth 2018

Sicrhau gwybodaeth a diogelwch data

Mae'r LAA yn trin a thrafod llawer iawn o ddata personol ei chwsmeriaid bob dydd. Cymerwn ddiogelu gwybodaeth felly o ddifrif gan gyfarwyddo ein pobl i gwblhau hyfforddiant gorfodol ar eu cyfrifoldebau yng nghyswllt trin gwybodaeth. Ymchwiliwn i bob digwyddiad i sicrhau y gallwn ganfod gwraidd y broblem a'i gywiro lle gallwn. Mae'r ARAC hefyd yn herio ein perfformiad ar reoli digwyddiadau drwy oruchwylio a chynnig cyfeiriad

111 yn llai

**O ddigwyddiadau data personol**

yn 2017-18 o'i gymharu â 2016-17

Yn 2017-18 adroddwyd 137 o ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i ni gofnodi llai o ddigwyddiadau. Mae'r lleihad hwn yn rhannol wedi digwydd oherwydd twf parhaus ein ffyrdd electronig o weithio a hefyd oherwydd ein polisi parhaus o gyfathrebu, ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff.

Yn ystod y flwyddyn cafodd un digwyddiad ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yn ymwneud â cholli ffeiliau cwsmeriaid ar ôl i fan a oedd yn cario'r ffeiliau gael ei dwyn. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, rydyn ni wedi cryfhau ein prosesau ar gyfer trosglwyddo a chludo ffeiliau i leihau'r risg y bydd hyn yn digwydd eto.

| CATEGORI | NATUR Y DIGWYDDIAD | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| I | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, oedd heb eu diogelu'n ddigonol, o adeiladau diogel y llywodraeth. | 38 | 79 |
| II | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, oedd heb eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i adeiladau diogel y llywodraeth. | 17 | 25 |
| III | Gwaredu cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, oedd heb eu diogelu'n ddigonol, mewn ffordd anniogel. | 0 | 0 |
| IV | Datgelu diawdurdod. | 73 | 131 |
| V | Rhywbeth arall (diffyg cydymffurfio â pholisi) | 9 | 13 |
| **Cyfanswm y digwyddiadau** | | **137** | **248** |

**Y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**
Gwelodd 2018 newidiadau sylweddol i gyfraith diogelu data'r DU, gyda goblygiadau i unrhyw gorff sy'n trin data personol. Ym mis Mai 2018, daeth y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd, a Deddf Diogelu Data 2018, i rym yn y DU gan gynnwys gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar Orfodi'r Gyfraith (LED). Mae'r rhain yn cynnwys cysyniadau ac egwyddorion tebyg i Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA), ond hefyd yn cynnwys elfennau newydd a rhai a newidiodd yn sylweddol.

Wrth baratoi am y cyfreithiau newydd, sefydlwyd tîm prosiect i reoli'r gwaith sylweddol y bydd angen ei wneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn y dyfodol. Mae'n cynnwys gwaith helaeth a pharhaus i wneud yn siŵr bod ein systemau TG yn cydymffurfio o ran storio data personol ac am ba hyd. Rydyn ni wedi gweithredu ystod o fesurau, gan gynnwys adolygu'r data sydd gennym, diweddaru ein polisïau diogelu data, adnewyddu ein hysbysiadau preifatrwydd ynghyd â gweithredu prosesau newydd a newidiadau i sicrhau bod y ffordd y defnyddir data personol yn cwrdd â'r gofynion newydd.

Rydyn ni'n ymrwymedig i gydymffurfio â'r cyfreithiau newydd ac i barhau i weithio i sicrhau ein bod yn cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Rwyf yn ffyddiog y bydd y gwaith a wnawn yn cryfhau ac yn darparu'r rhagofalon angenrheidiol ar gyfer y data personol sydd yn ein gofal.

Casgliad
Rwyf yn ffyddiog bod y datganiad hwn yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o'r trefniadau a'r mesurau rheoli, llywodraethu a rheoli risg yr ydyn ni wedi eu gwreiddio yn yr LAA. Mae llwyddiant y trefniadau hyn yn ddyledus i'r bobl a'r prosesau sydd yn eu lle gennym, sydd wedi sicrhau bod yr Asiantaeth yn cwrdd â'i hamcanion busnes ac yn parhau i fod yn lle cefnogol ac arloesol i weithio ynddo fel y mae canlyniadau ein harolwg pobl yn ei ddangos

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
13 Mehefin 2018

# Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff

Mae'r bennod hon yn crynhoi polisi'r LAA ar gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau Bwrdd Gweithredol, Aelodau NEBM ac i staff. Mae hefyd yn rhoi manylion am y costau a'r trefniadau cytundebol.

Paratowyd yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn unol â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Y Prif Weinidog sy'n gosod allan y polisi taliadau ar gyfer uwch weision sifil (SCS) ar ôl derbyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Cafodd cyflogau aelodau Bwrdd Gweithredol yr LAA eu pennu'n dilyn trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol yr MoJ a'i Chyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â rheolau Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes gan yr LAA Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Ymdrinnir â phrif swyddogaethau'r pwyllgor hwn drwy Bwyllgor Gweithlu'r MoJ. Mae Pwyllgor Gweithlu'r MoJ yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol a mynychir y pwyllgor gan holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol a Phrif Weithredwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, HMCTS a'r LAA. Mae'r pwyllgor yn cwrdd yn fisol i reoli adnoddau talent, gallu a phobl. Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gan yr LAA weithlu o'r maint iawn gyda'r sgiliau iawn, a reolir yn dda, gyda chymhelliad cryf ac a ddefnyddir yn briodol.

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu harchwilio gan yr archwilydd allanol, sef y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodir o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

# Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

## Aelodau Bwrdd Gweithredol

### Contractau gwasanaeth

O dan Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010, rhaid i benodiadau gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir penodi fel arall.

Mae'r Aelodau Gweithredol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau pen-agored. Byddai terfynu'n fuan, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Am fwy o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i www.civilservicecommission.org.uk

### Y broses berfformio

Mae uwch-weision sifil (SCS) yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet sy'n ymgorffori Fframwaith Rheoli Perfformiad y SCS. Cynhaliwyd dwy drafodaeth Adolygu Rheoli Perfformiad (PMR) 'ffurfiol' yn ystod y flwyddyn ac yna cyfarfodydd un-i-un rheolaidd i fonitro cynnydd a sicrhau bod yr holl amcanion i gyd yn berthnasol. Mae'r mesurau perfformiad ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi eu cwrdd.

### Cyfanswm cyflogau a ffioedd

Mae cyflogau a lwfansau'n golygu symiau pensiynadwy a di-bensiynadwy ac yn cynnwys cyflogau crynswth; goramser; hawliau a gadwyd i dderbyn lwfansau Llundain neu bwysoliad Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfeydd preifat neu unrhyw lwfansau eraill sy'n agored i'w trethu yn y DU ac unrhyw daliadau ex-gratia. Nid ydynt yn cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau a achoswyd yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'r unigolyn.

### Buddion trethadwy

Mae buddion trethadwy'n cynnwys unrhyw fuddion mewn nwyddau, a buddion arian parod trethadwy. Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Mae buddion cydnabyddedig yn ymwneud â theithio a chynhaliaeth. Amcangyfrifon yw'r buddion mewn nwyddau ar gyfer Aelodau Bwrdd Gweithredol ac Aelodau NEBM; yr LAA a HMRC sy'n cytuno ar y gwerthoedd terfynol; telir hwynt drwy Gytundeb Setlo PAYE

### Taliadau bonws

Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad ac yn cael eu talu fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau'n ymwneud â pherfformiad yn y flwyddyn pryd y daethant yn daladwy i'r unigolyn.Mae'r bonysau a adroddir yn 2017-18 yn ymwneud â pherfformiad yn 2016-17 ac mae'r bonysau a adroddwyd yn 2016-17 yn ymwneud â pherfformiad yn 2015-16.

**Buddion pensiwn**

Pennir uchafswm yr arbedion pensiwn blynyddol y gellir eu cronni o dan drefniant buddion diffiniedig, cyn y gellir codi treth, o dan adran 229 o Ddeddf Gyllid 2004. Yr arbedion a ddangosir yn Nhabl A yw'r cynnydd yng ngwerth y buddion a addawyd i'r unigolyn dros gyfnod mewnbwn y pensiwn (sef y flwyddyn ariannol i'r LAA). Y cynnydd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth buddion yr unigolyn ar ddechrau cyfnod mewnbwn y pensiwn (1 Ebrill 2017) a gwerth buddion yr unigolyn ar ddiwedd cyfnod mewnbwn y pensiwn (31 Mawrth 2018); mae hyn hefyd yn ymgorffori unrhyw gynnydd yn y cyflog pensiynadwy.

Mae'r rheoliadau'n nodi addasiad i reolau'r HMRC i'r pwrpas hwn, ac er mwyn prisio'r buddion mae Trysorlys EM wedi cynghori bod cynlluniau pensiwn yn defnyddio lluosydd o 20.

## Aelodau Bwrdd Anweithredol

Cafodd dri NEBM eu recriwtio mewn cystadleuaeth agored yn unol â Deddf Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol 2010. Cawsant eu penodi ar sail haeddiant, ac i gydnabod eu gallu a'u profiad, gan banel yn cynnwys un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr MoJ ac arbenigwr pwnc dirprwyedig, fel y bo'n berthnasol. Penodwyd yr Aelodau NEBM gan y Prif Weithredwr am gyfnod penodol o dair blynedd; yn 2015-16 derbyniodd bob un o'r Aelodau NEBM estyniad contract o dair blynedd.

Nid yw Aelodau NEBM yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ac nid oes ganddynt hawl i unrhyw fuddion na chydnabyddiaeth ariannol arall.

Pe bai penodiad NEBM yn cael ei derfynu am resymau heblaw bod eu tymor yn dod i ben, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder benderfynu bod iawndal i'w dalu ar sail natur y terfynu a faint o dymor y penodiad oedd ar ôl.

Rhoddir manylion am delerau gwasanaeth, buddion a chydnabyddiaeth ariannol i Aelodau NEBM, yn Nhablau E a F ar dudalen 54.

## Tabl A: Uwch-weithwyr mewn swydd ar 31 Mawrth 2018 – Costau Cyflogaeth

| | 2017-18 | | | | | 2016-17 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau Bwrdd Gweithredol | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Buddion thadwy (i'r £100 agosaf)) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) | Canswm (i'r £1000 agosaf) | Cy-fan-swm cy-flogau a ffioedd | buddion | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) | Total (to nearest £1000) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Shaun McNally CBE Prif Weithredwr Cadeirydd Bwrdd yr LAA | 95-100 | 44.2[1,5] | 10-15 | 19 | 170-175 | 90-95 | 41.7 | 10-15 | 74 | 220-225 |
| **James McEwen4 Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol (tan 08.09.17)** | 40-45 (100-105 FYE) | – | – | 13 | 55-60 | 85-90 | – | – | 91[7] | 175-180 |
| Ruth Wayte2 Prif Gynghorydd Cyfreithiol i'r LAA | 90-95 | – | – | 34 | 125-130 | 95-100 | – | – | 38 | 135-140 |
| Adrian Hannell4 Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | 95-100 | – | 5-10 | 37 | 140-145 | 45-50 (85-90 FYE) | – | – | 18 | 60-65 |
| Jane Harbottle3 Pennaeth Rheoli Achosion Sifil a Throseddol | 75-80 | 13.7[3,6] | 5-10 | 19 | 120-125 | 35–40 (75-80 FYE) | 10.8 | – | 65 | 115-120 |
| Sally Jones Pennaeth y Ganolfan Gorfforaethol (tan 20.09.17) | 30-35 (65-70 FYE) | – | – | 13 | 45-50 | 10 – 15 (65-70 FYE) | – | – | 14[7] | 25-30 |
| David Thomas Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd | 70-75 | – | – | 58 | 125-130 | 0–5 (70-75 FYE) | – | – | 4 | 5-10 |
| Samantha Milton Pennaeth Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (o 26.10.17) | 30-35 (70-75 FYE) | – | – | 7 | 35-40 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Paul Henson4 Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (o 26.10.17) | 30-35 (70-75 FYE) | – | – | 12 | 40-45 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |

1 Fel Prif Weithredwr, lluniwyd cytundeb dau weithle ac mae'r costau uchod yn dangos y buddion mewn nwyddau ar gyfer yr holl deithio i ac o'r ddau weithle.
2 Mae Ruth Wayte yn cael ei thalu drwy Adran Gyfreithiol y Llywodraeth ac yn cael ei chyflogi'n rhan amser (0.91 FTE).
3 Mae gan Jane Harbottle gytundeb dau weithle ac mae'r costau'n dangos y buddion mewn nwyddau ar gyfer yr holl deithio i ac o'r ddau weithle.
4 Mae James McEwen, Adrian Hannell a Paul Henson yn cael eu talu drwy Adran Graidd yr MoJ o dan arweinyddiaeth drwy wneud.
5 Cafodd £2.4k o'r holl fuddion trethadwy eu had-dalu mewn arian parod.
6. Cafodd £0.4k o'r holl fuddion trethadwy eu had-dalu mewn arian parod.
7 Mae buddion pensiwn yn 2016-17 wedi eu hail-ddatgan oherwydd newid ôl-weithredol mewn enillion pensiynadwy.

Tabl B: Cydnabyddiaeth ariannol yr Aelod Bwrdd Gweithredol sy'n cael ei dalu fwyaf, yn ôl band

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Cyfanswm band cyflog yr Aelod Bwrdd Gweithredol sy'n cael ei dalu fwyaf ac eithrio buddion pensiwn (£000) | 150-155 | 145-150 |
| Cyfanswm cyflogau canolrifol (£)1 | | |
| Cymhareb1 | 7.0 : 1 | 6.6 : 1 |

1 Yn 2017/18 mae'r arweinyddiaeth drwy wneud wedi effeithio ar y cyfanswm cyflogau canolrifol a'r gymhareb, oherwydd mae staff arweinyddiaeth drwy wneud yn cael eu talu'n awr drwy Adran Graidd yr MoJ. Am fwy o wybodaeth, wele nodyn 1z yn y datganiadau ariannol.

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog yr Aelodau Bwrdd Gweithredol sy'n cael eu talu fwyaf yn eu sefydliad, ac enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Y band tâl ar gyfer yr Aelod Bwrdd Gweithredol oedd yn cael ei dalu fwyaf yn yr LAA ym mlwyddyn ariannol 2017-18 oedd £150k-155k (2016 -17: £145-150k). Roedd y tâl hwn 7.0 gwaith (2016-17; 6.6 gwaith) yn fwy na chyflog cyfartalog y gweithlu, sef £21,810 (2016-17: £22,250).

Yn 2017-18 ni dderbyniodd unrhyw staff na chontractwr (2016-17: 1) fand tâl mwy na'r Aelod Bwrdd Gweithredol a dalwyd fwyaf.

Roedd cyflogau'r staff yn amrywio rhwng £10-15k a £140k-145k (2016-17: £10-15k a £185k-190k).

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unrhyw daliad diswyddo am ddileu swyddi'n orfodol a gadael swydd o wirfodd yn gynnar a ddatgelir yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 55.

Mae'r cyfanswm cyflogau'n cynnwys cyflog, tâl perfformiad ar wahân, buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Tabl C: Aelodau Bwrdd Gweithredol – Contractau cyflogaeth

| Aelodau Bwrdd Gweithredol | Dyddiad cychwyn y contract | Tymor gwasanaeth (blynydd- | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Shaun McNally CBE | 22 Hydref 2012 | 4 | 3 |
| Ruth Wayte | 7 Gorffennaf 2003 | 13 | 3 |
| Adrian Hannell | 1 Ebrill 2016 | 2 | 3 |
| Jane Harbottle | 1 Ebrill 2016 | 2 | 3 |
| David Thomas | 16 Ionawr 2017 | 2 | 3 |
| Samantha Milton | 20 Mawrth 2017 | 1 | 3 |
| Paul Henson | 2 Ionawr 2017 | 1 | 3 |

# Buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

## Buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O'r 1 Ebrill 2015 ymlaen, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfartalog gyda'r oed pensiwn arferol yn cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 lle bo hynny'n uwch).

O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd pob gwas sifil newydd eu penodi, a'r rhan fwyaf oedd eisoes mewn gwasanaeth, ag Alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi mewn pedair rhan o'r PCSPS, tri'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (Clasurol, Premiwm neu Glasurol a Mwy) ac oed pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (Nuvos) ac oed pensiwn arferol o 65.

Arhosodd y rhai oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS ac o fewn 10 mlynedd i'w hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y rhan o'r PCSPS oedd yn berthnasol iddynt ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd rhai oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu cofrestru ag Alpha rhywdro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022.

Bydd yr holl aelodau a gofrestrodd gydag Alpha yn gallu 'bancio' unrhyw fuddion yn PCSPS. Bydd gwerth buddion cynharach aelodau sydd â buddion yn un o rannau cyflog terfynol y PCSPS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol wrth adael Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn wedi'i ennill yn y PCSPS neu Alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac yn Alpha, mae'r ffigur yn cyfateb i werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw efallai'n daladwy o wahanol oed).

## Cyllido'r PCSPS

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei chwrdd gan gyllid a bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan Nuvos, Clasurol, Premiwm, Clasurol a Mwy ac Alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau.

## Cyfraddau Cyfraniadau Gweithwyr

Mae cyfraniadau gweithwyr yn dibynnu ar gyflog ac yn amrywio rhwng 4.60% a 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o'r cynlluniau Clasurol, Premiwm, Clasurol a Mwy, Nuvos ac Alpha.

## Buddion Cynlluniau Pensiwn

Mae buddion Clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd pan fydd y person yn ymddeol

Ar gyfer Premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am

bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r un Clasurol, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig.

Cynllun hybrid yw Clasurol a Mwy, gyda'r buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel gyda'r cynllun Clasurol a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel gyda'r cynllun Premiwm.

Gyda Nuvos, mae aelod yn cronni ei phensiwn ar sail enillion pensiynadwy dros gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno, a chyfradd y pensiwn a gronnwyd yn cael ei chodi'n unol â'r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau.

Mae buddion yn Alpha yn cronni mewn ffordd debyg i Nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni'n 2.32%.

Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Gyllid 2004.

## Cyfrif Pensiwn Partneriaeth

Cynllun pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r gweithiwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond lle mae gweithwyr yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol o hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy a hynny ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail iechyd).

Y pensiwn a gronnwyd a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn ar ôl cyrraedd oed ymddeol, neu'n syth ar ôl iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd neu os ydynt dros oed ymddeol. Yr oed pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau Clasurol, Premiwm a Clasurol a Mwy, 65 ar gyfer aelodau Nuvos a 65 neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth (pa un bynnag sydd uchaf) ar gyfer Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn wedi'i ennill yn y PCSPS neu Alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac yn Alpha, mae'r ffigur yn cyfateb i werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw efallai'n daladwy o wahanol oed)

Mae mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael yn:
www.civilservicepensionscheme.org.uk

### Tabl D: Aelodau Bwrdd Gweithredol – Costau pensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Cyfanswm croniadau pensiwn yn daladwy ar ôl cyrraedd oed pensiwn ar 31 Mawrth 2018 a chyfandaliadau cysylltiedig | Symudiad gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn daladwy ar ôl cyrraedd oed pensiwn | CETV1 ar 31 Mawrth 2018 | CETV ar 31 Mawrth 2017 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Shaun McNally CBE | Pensiwn 40-45 Cyfandaliad 100- | Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 0 | 709 | 662 | 3 |
| James McEwen | 20-25 | 0-2.5 | 235 | 221[2] | 2 |
| Ruth Wayte | 10-15 | 0-2.5 | 135 | 106 | 17 |
| Adrian Hannell | 0-5 | 0-2.5 | 40 | 19 | 13 |
| Jane Harbottle | 20-25 | 0-2.5 | 309 | 283 | 5 |
| Sally Jones | 10-15 | 0-2.5 | 82 | 74[2] | 3 |
| David Thomas | 15-20 | 2.5-5 | 156 | 120 | 23 |
| Samantha Milton | 20-25 | 0-2.5 | 324 | 308 | 2 |
| Paul Henson | 0-5 | 0-2.5 | 12 | 7 | 2 |

1 Mae symiau CETV yn ymwneud â phan ymunodd yr Aelod Bwrdd Gweithredol â'r Bwrdd.
2 7 Mae symiau CETV yn 2016-17 wedi eu hail-ddatgan oherwydd newid ôl-weithredol mewn enillion pensiynadwy.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn, wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraidd, a gronnwyd gan yr aelod ar adeg neilltuol. Mae gwerth y buddion hefyd yn cynnwys unrhyw bensiwn cymar wrth gefn sy'n daladwy o dan y cynllun. Pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo eu buddion, mae taliad CETV yn cael ei wneud gan y cynllun i gynllun pensiwn cofrestredig arall.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys buddion a gronnwyd ar gyfer holl aelodaeth cynllun yr aelod ac yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn a drosglwyddwyd i'r PCSPS o drefniadau pensiwn eraill. Cyfrifir gwerthoedd CETV o dan Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'r rhain yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosib mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan godir y buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV wedi'i ariannu gan y cyflogwr, ac eithrio effaith unrhyw amrywiad yng ngwerth trosglwyddo'r buddion, fel symudiad yn y farchnad fuddsoddi. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau'r gweithiwr ond mae'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall. Mae'n cael ei gyfrifo'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Aelodau Bwrdd Anweithredol

Roedd yr Aelodau NEBM yn rhan amser ac yn gofyn ymrwymiad o 20 diwrnod y flwyddyn yn 2017-18. Bydd yr Aelodau hyn yn dal eu swyddi tan ddiwedd y cyfnod y cawsant eu penodi drosto.

## Costau Cyflogaeth – Aelodau NEBM

### Tabl E: Aelodau NEBM mewn swydd ar 31 Mawrth 2018 – Costau Cyflogaeth

| Aelod Bwrdd Anweithredol | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr holl ffioedd | Buddion trethadwy | Cyfanswm ye holl ffioedd | holl Buddion trethadw y |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| John Grosvenor<br>ARAC Cadeirydd | 10.4[1] | 0.5[3] | 10.4 | 0.4 |
| Eric Gregory | 8.0 | 0.7[3] | 8.0 | 0.5 |
| Andrew Lockley | 8.0 | 1.4[3] | 8.0 | 1.9 |

1 Mae'r taliad yn cynnwys £2,400 (2016-17: £2,400) am fod yn Gadeirydd y pwyllgor ARAC.
2 Mae cost y treuliau'n amrywio yn ôl y pellter rhwng cartref yr Aelod NEBM a swyddfa'r LAA, ymrwymiadau teithio eraill sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl, ac ymrwymiad amser yr Aelod NEBM unigol. Cafodd Aelodau NEBM eu had-dalu am gostau teithio a threuliau eraill gan gynnwys treth a dalwyd ar y treuliau hynny.
3 Ar gyfer Aelodau NEBM, o dan reolau HMRC rhaid talu Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol ar hawliadau teithio a chynhaliaeth. Mae hyn yn cael ei dalu fel arian parod gan yr LAA.

## Contractau Cyflogaeth – Aelodau NEBM

### Tabl F: Aelodau NEBM - Contractau Cyflogaeth

| Aelod Bwrdd Anweithredol | Dyddiad cychwyn y contract | Tymor gwasanaeth (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| John Grosvenor | 1 Tachwedd 2012 | 5 |
| Eric Gregory | 1 Ionawr 2013 | 5 |
| Andrew Lockley | 31 Ionawr 2013 | 5 |

Derbyniodd bob Aelod NEBM estyniad contract o dair blynedd yn 2015-16.

# Adroddiad Staff

## Costau Staff

### Tabl G: Costau Staff am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

| | 2017-18 | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol wedi eu hail-ddatgan | Staff eraill wedi eu hail-ddatgan | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau misol ac wythnosol | 36,209 | 830 | 37,039 | 41,540 | 1,530 | 43,070 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,690 | – | 3,690 | 4,165 | - | 4,165 |
| Costau pensiwn eraill | 6,780 | – | 6,780 | 8,017 | - | 8,017 |
| | 46,679 | 830 | 47,509 | 53,722 | 1,530 | 55,252 |
| Llai costau wedi eu hadennill am secondio staff allan | (53) | – | (53) | (142) | – | (142) |
| Dileu swyddi | 37 | – | 37 | 141 | – | 141 |
| | 46,663 | 830 | 47,493 | 53,721 | 1,530 | 55,251 |
| | | | | | | |
| Aelodau Bwrdd Anweithredol (ffioedd a buddion) | 29 | – | 29 | 29 | – | 29 |
| | 29 | – | 29 | 29 | – | 29 |
| Total | 46,692 | 830 | 47,522 | 53,750 | 1,530 | 55,280 |

1 Mae'r costau dileu swyddi yn y tabl uchod yn ymwneud ag un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (2016-17: 3).
2 Mae costau staff i lawr o'i gymharu â 2016-17 oherwydd bod rhai staff yn cael eu talu drwy Adran Graidd yr MoJ fel rhan o arweinyddiaeth drwy wneud. Am fwy o wybodaeth, wele nodyn 1z yn y datganiadau ariannol.

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw'r PCSPS, lle nad yw'r LAA yn gallu nodi faint yw ei siâr o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cafodd prisiad actiwaraidd llawn ei gyflawni ar 31 Mawrth 2017. Rhoddir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservicepensionscheme.org.uk).

Ar gyfer 2017-18, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £6,605k (2016-17: £7,826k) i'r PCSPS ar sail un o bedair cyfradd rhwng 20.0% a 24.5% (2016-17: 20.0%-24.5%) o'r cyflog pensiynadwy, yn ôl y bandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr pob pedair blynedd ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n cael eu hachosi, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth neu bensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £175k (2016-17 £191k) i un neu fwy o'r panel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd.


Penderfynodd un person (2016-17: 1) ymddeol ar sail salwch; daeth cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn i nil (2016-17: £5k).

## Nifer y Staff

### TTabl H: Nifer gyfartalog y staff a gyflogir

| | 2017-18 | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol wedi eu hail-ddatgan[1] | Staff eraill wedi eu hail-ddatgan[1] | Cyfanswm |
| Staff a gyflogir yn | 1,203 | - | 1,203 | 1,352 | - | 1,352 |
| Staff eraill[2] | – | 20 | 20 | – | 33 | 33 |
| Staff a gyflogir ar brosiectau cyfalaf[2] | – | – | – | 52 | 19 | 71 |
| Total | 1,203 | 20 | 1,223 | 1,404 | 52 | 1,456 |

1 Mae niferoedd 2016-17 wedi eu hail-ddatgan oherwydd newid yn nosbarthiad staff dros dro.
2 Mae nifer gyfartalog y staff a gyflogir i lawr o'i gymharu o 2016-17 o ganlyniad i gyflwyno arweinyddiaeth drwy wneud. Ar 1 Ebrill 2017, trosglwyddodd 158 o staff o'r LAA i Adran Graidd yr MoJ o dan arweinyddiaeth drwy wneud. Am fwy o fanylion, wele nodyn 1z yn y datganiadau ariannol.




Mae'r niferoedd hyn yn eithrio staff arweinyddiaeth drwy wneud. Am fwy o fanylion, wele nodyn 1z yn y datganiadau ariannol

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Ein nod yw denu a chadw gweithlu cynrychiadol sy'n deall anghenion y darparwyr a'r cwsmeriaid cymorth cyfreithiol amrywiol a wasanaethwn ac sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth yma i ddarparu cymorth cyfreithiol yn well. Mae gan yr LAA ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, harasio a fictimeiddio, gwella cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Rydyn ni'n sicrhau bod hyn yn digwydd gyda holl swyddogaethau'r LAA.

Yn Arolwg Pobl 2017-18, sgoriodd staff yr LAA yn 3ydd yn y Gwasanaeth Sifil am degwch a chynhwysiant. Mae hyn oherwydd ymgysylltiad cryf y staff mewn amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae dros 30 o staff yn gwirfoddoli fel pencampwyr amrywiaeth lleol ac mae eraill yn gweithio mewn grwpiau ar wahanol bynciau fel rhywedd, oed, anabledd a chydraddoldeb hil. Mae pencampwyr amrywiaeth lleol wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cenedlaethol fel Diwrnod Rhyngwladol y Merched a gwaith mwy lleol fel cymorth i ofalwyr.

Mae gennym hefyd Uwch-Bencampwyr Amrywiaeth sy'n codi gwelededd drwy hybu cydraddoldeb ar gyfer hil, rhywedd, anabledd, oed, gofalwyr, LGBT, ffydd, gweithio'n rhan amser a chael plant.

Yn 2017-18 cyfrannodd yr LAA at ddatblygu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yr MoJ.

Roedd ein gwaith allweddol yn 2017-18 yn cynnwys:

- Recriwtio carfan o wirfoddolwyr i helpu i sicrhau bod paneli recriwtio'n amrywiol;
- Gweithdai wyneb yn wyneb i reolwyr ar ragfarn ddifeddwl;
- Lansio Rhwydwaith Cynghreiriaid Iechyd Meddwl.


Mae ein tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant wedi adnabod camau pellach i'w cynnwys yng Nghynllun Pobl yr LAA i barhau gyda'n gwaith amrywiaeth a chynhwysiant.

## Cyflogi Pobl Anabl

Yn 2017-18 bu'r LAA yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws yr MoJ i gyflwyno cais llwyddiannus am achrediad fel Arweinydd Hyder mewn Pobl Anabl. Mae'r LAA wedi mabwysiadu polisïau'r MoJ ar gyflogi, hyfforddi, datblygiad gyrfaol a rhoi dyrchafiad i bobl gydag anabledd. Maen nhw'n cynnwys Llawlyfr Gallu a Pholisi Anabledd yr MoJ. Mae gan ein pobl fynediad at Hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol y Gwasanaeth Sifil a rhaglenni datblygu gyrfa wedi eu targedu at gefnogi pobl gydag anabledd. Gall staff yr LAA hefyd ofyn am gyngor gan Dîm Addasiadau Gweithle'r Gwasanaeth Sifil.

## Data ar Absenoldeb Salwch

Mae'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gollir oherwydd salwch (AWDL) yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i adrodd yn fisol i'r Bwrdd. Rydyn ni wedi parhau i wella ein AWDL ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol o'i gymharu â'r llynedd ac yn erbyn targedau.




### Tabl J: Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau gadael

| | 2017-18 | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y swyddi diswyddo gorfodol | Nifer y swyddi eraill lle gadawodd staff | Cyfanswm y pecynnau gadael | Nifer y swyddi diswyddo gorfodol | Nifer y swyddi eraill lle gadawodd staff | Cyfanswm y pecynnau gadael |
| Bandiau cost pecynnau gadael | | | | | | |
| < £10,000 | – | – | – | – | 1 | 1 |
| £10,000 - £25,000 | – | – | – | – | – | – |
| £25,000 - £50,000 | – | 1 | 1 | – | 1 | 1 |
| £50,000 - £100,000 | – | - | – | – | 1 | 1 |
| Cyfanswm y pecynnau gadael yn ôl math | – | 1 | 1 | – | 3 | 3 |
| Cyfanswm cost adnoddau (£000) | – | 37 | 37 | – | 141 | 141 |

Cytunwyd ar gostau diswyddo gorfodol a chostau gadael eraill yn unol â Chynllun Iawndâl y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972.

Cyfrifir am gostau gadael yn llawn yn y flwyddyn gadael. Lle mae'r LAA wedi cytuno ar ymddeol yn gynnar o swydd, mae'r costau ychwanegol yn cael eu cwrdd gan yr LAA ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail salwch yn cael eu cwrdd gan y cynllun pensiwn ac wedi eu heithrio o'r tab.

## Costau Cwmnïau Ymgynghori

Gwariwyd £24k (2016-17: £37k) ar gwmnïau ymgynghori yn 2017-18.

## Penodiadau oddi ar y gyflogres

Yn ystod y flwyddyn mae'r LAA wedi adolygu trefniadau treth ei holl benodiadau oddi ar y gyflogres. Bu'n rhaid i bob contractwr o fewn sgôp yr ymarfer hwn ddangos tystiolaeth o gydymffurfio â gofynion treth. Ar 31 Mawrth 2018 roedd pob penodiad oddi ar y gyflogres wedi cydymffurfio â'r gofynion treth. Rhoddir mwy o fanylion am benodiadau oddi ar gyflogres yr LAA yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr MoJ.

# Datgeliadau atebolrwydd seneddol

**Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.**

**Colledion a Thaliadau Arbennig**

| | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | £000 | Nifer | £000 |
| Dileu dyledion | 1,646 | 2,220 | 4,229 | 6,963 |
| Taliadau arbennig | – | – | 10 | 453 |
| Cyfanswm gwerth y colledion | 1,646 | 2,220 | 4,239 | 7,416 |

Yn unol â Managing Public Money, datgelir colledion unigol dros £300k ar wahân.

Ni chafodd unrhyw falans cyflenwr gwerth dros £300k ei ddileu (2016-17: un balans cyflenwr o £633k wedi'i ddileu).

**Colledion posib**
**Mae tîm Gwrth-dwyll yr LAA yn cynorthwyo gydag ymchwilio i amheuon o dwyll gan gwmnïau darparwyr ar faterion a gyfeiriwyd at yr heddlu ac a adroddwyd i Action Fraud a Swyddfa'r Cabinet.**

**Mae'r LAA yn cymryd camau i orfodi ac adennill symiau a dalwyd o dan yr hawliadau twyllodrus posib hyn. Os yw ymchwiliad yn casglu bod y symiau wedi eu derbyn drwy dwyll, gall unrhyw swm na ellir ei adennill achosi colled yn y Cyfrifon yn y dyfodol.**

**Taliadau arbennig**
Nid oes unrhyw daliadau arbennig i'w hadrodd yn 2017-18 (2016-17: £453k).

**Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
13 Mehefin 2018

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Maen nhw'n cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr Asiantaeth ar 31 Mawrth 2018, ac o'r costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Drysorlys EM..

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac ym mhob cyswllt o bwys, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail fy marn

Rwyf wedi cyflawni fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (yn y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn fy nhystysgrif ar gyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. O dan y safonau hynny, rhaid i mi a fy staff gydymffurfio â Safon Moesegol Diwygiedig 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol o'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad a datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a fy staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigon a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn cynnwys cael gafael ar dystiolaeth foddhaol ar y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddatganiad pwysig, p'un ai drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (yn y DU) yn gallu canfod cam-ddatganiad pwysig bob tro. Gall cam-ddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellir disgwyl yn rhesymol i'r cam-ddatganiadau, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r safonau ISA (yn y DU), rwyf yn ymarfer crebwyll a barn broffesiynol ac yn cadw lefel broffesiynol o amheuaeth drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- Yn adnabod ac asesu unrhyw risg o gam-ddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, p'un ai drwy dwyll neu wall, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hynny ac yn casglu tystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod cam-ddatganiad perthnasol drwy dwyll yn uwch nag un drwy wall, oherwydd gall twyll gynnwys cyd-gynllwynio, ffugio, hepgor yn fwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaeth fewnol;
- Yn ennill dealltwriaeth o'r mesurau rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio priodol i'r amgylchiadau, ond nid i'r pwrpas o fynegi barn am ba mor effeithiol yw rheolaeth fewnol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol;
- Yn gwerthuso pa mor briodol yw'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a pha mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu a'r datganiadau cysylltiedig a wnaed gan reolwyr;
- Yn dod i gasgliad ynghylch pa mor briodol oedd defnydd y rheolwyr o'r sail busnes hyfyw ac, ar sail y dystiolaeth archwilio, ynghylch a oes unrhyw ansicrwydd o bwys yn codi gyda'r digwyddiadau neu'r amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Asiantaeth i barhau fel busnes hyfyw. Os casglaf fod ansicrwydd o bwys yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, neu os yw'r datganiadau hynny'n anfoddhaol, mae'n ofynnol i mi addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniais hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gallai digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi bod y corff yn peidio â pharhau fel busnes hyfyw;
- Yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn cyflwyno'r trafodion a'r digwyddiadau cysylltiedig mewn ffordd sy'n eu cyfleu'n deg.

Yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith pethau eraill, sgôp ac amseriad yr archwiliad a'r canfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffyg sylweddol yn y rheolaeth fewnol yr wyf yn ei ganfod yn ystod fy archwiliad

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael gafael ar dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Gwybodaeth arall**

Y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw i fod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd yn eu cylch. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, rwyf yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, am ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gefais drwy'r archwiliad, neu os yw'n ymddangos i fod yn cam-ddatgan mewn ffordd arall. Os wyf yn casglu, ar sail fy ngwaith, bod y wybodaeth yma wedi cael ei cham-ddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

Mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol ac yn unol â chyfarwyddiadau gan Drysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

- Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a enillwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gam-ddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd; a
- Mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi cael eu paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion yr adroddaf arnynt fel eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddwn yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- Ni chafodd gofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chawsant ymweliad gan fy staff; neu
- Nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni blynyddol; neu
- Ni dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- Nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylw i'w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**19 Mehefin 2018**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Adroddiad Ariannol



# Datganiadau Ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm rhent | | (653) | (682) |
| Llog ar daliadau statudol | | (5,807) | (6,307) |
| Incwm o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol | 6 | (168,056) | (188,883) |
| Cyfanswm incwm gweithredol | | (174,516) | (195,872) |
| Costau staff | 3 | 47,522 | 55,280 |
| Gwariant o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol | 4 | 1,807,201 | 1,781,140 |
| Costau dibrisio ac amhariad | 8 & 9 | 8,757 | 10,069 |
| Gwariant gweithredol arall | 5 | 31,258 | 36,025 |
| Cyfanswm costau gweithredol | | 1,894,738 | 1,882,514 |
| Costau gweithredol net am y flwyddyn | | 1,720,222 | 1,686,642 |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | |
| Elw net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | (646) | (2,471) |
| Elw net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (42) | (369) |
| Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr | | 1,719,534 | 1,683,802 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 98 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad Sefyllfa Ariannol
## Datganiad Sefyllfa Ariannol

| | Nodiadau | 31 MAWRTH 2018<br>£000 | 31 MAWRTH2017<br>£000 |
|---|---|---|---|
| ASEDAU ANGHYFREDOL | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | 55,931 | 56,161 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 9 | 2,798 | 4,247 |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | 58,729 | 60,408 |
| ASEDAU CYFREDOL | | | |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 11 | 149,510 | 135,918 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | 26,781 | 10,894 |
| Cyfanswm yr asedau cyfredol | | 176,291 | 146,812 |
| Cyfanswm asedau | | 235,020 | 207,220 |
| RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 13 | (188,855) | (196,569) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (643,974) | (626,674) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | | (832,829) | (823,243) |
| Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | (597,809) | (616,023) |
| RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 13 | (448) | (571) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (671) | (2,063) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol | | (1,119) | (2,634) |
| Asedau llai rhwymedigaethau | | (598,928) | (618,657) |
| ECWITI TRETHDALWYR | | | |
| Y gronfa ailbrisio | | 3,245 | 3,165 |
| Y gronfa gyffredinol | | (602,173) | (621,822) |
| Cyfanswm ecwiti | | (598,928) | (618,657) |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 70 i 98 yn ffurfio rhan o’r datganiadau ariannol hyn.

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Shaun McNally CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**
13 Mehefin 2018

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad Llif Arian
## am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL | | | |
| Costau gweithredu net | | (1,720,222) | (1,686,642) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a di-arian parod | | 17,994 | 19,955 |
| Balansau rhyng-adrannol wedi eu setlo o'r cronfeydd cyffredinol | | 2,618 | 23,703 |
| Colledion oherwydd amhariad, ailbrisio a cholledion wrth werthu | 5 | – | 14 |
| Cynnydd mewn derbyniadau masnachol ac eraill | | (13,592) | (2,140) |
| Lleihad mewn taladwyon masnachol ac eraill | | (7,837) | (44,724) |
| Llai symudiadau mewn taladwyon am eitemau na phasiodd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 915 | 15 |
| Symudiad mewn darpariaethau | | 15,908 | 34,576 |
| Net cash outflow from operating activities | | (1,704,216) | 1,655,243 |
| LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | (7,171) | (8,442) |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7 | – | (586) |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | | (7,171) | (9,028) |
| LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): refeniw | | 1,720,884 | 1,649,805 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): cyfalaf | | 6,390 | 9,168 |
| Llif arian i mewn net o weithgareddau cyllido | | 1,727,274 | 1,658,973 |
| Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y flwyddyn | | 15,887 | (5,298) |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 10,894 | 16,192 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 12 | 26,781 | 10,894 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 98 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | CRONFA AILBRISIO £000 | CRONFA GYFFREDINOL £000 | CYFANSWM £000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2016 | | 1,391 | (629,172) | (627,781) |
| NEWIDIADAU MEWN ECWITI TRETHDALWYR AM 2016-17 | | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): refeniw | | – | 1,649,805 | 1,649,805 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): cyfalaf | | – | 9,168 | 9,168 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | | – | (1,686,642) | (1,686,642) |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | | |
| Elw net wrth ailbrisio | | 2,840 | – | 2,840 |
| ADDASIADAU DI-ARIAN PAROD | | | | |
| Addasiadau rhyng-adrannol | | – | 23,912 | 23,912 |
| Symiau tybiannol yr ail-godwyd amdanynt gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 5 | – | 9,841 | 9,841 |
| Ffioedd archwilio allanol tybiannol | 5 | – | 200 | 200 |
| SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio | | (1,066) | (1,066) | – |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | | 3,165 | (621,822) | (618,657) |
| NEWIDIADAU MEWN ECWITI TRETHDALWYR AM 2017-18 | | | | |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): refeniw | | – | 1,720,884 | 1,720,884 |
| Cyllid cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ): cyfalaf | | – | 6,390 | 6,390 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | | – | (1,720,222) | (1,720,222) |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | | |
| Elw net wrth ailbrisio | | 688 | – | 688 |
| ADDASIADAU DI-ARIAN PAROD | | | | |
| Addasiadau rhyng-adrannol | | – | 2,618 | 2,618 |
| Symiau tybiannol yr ail-godwyd amdanynt gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 5 | – | 9,181 | 9,181 |
| Ffioedd archwilio allanol tybiannol | 5 | – | 190 | 190 |
| SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio | | (608) | 608 | – |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | | 3,245 | (602,173) | (598,928) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 98 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

## Nodyn 1 - Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (y FReM) 2017-2018 o dan gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) fel yr addasir neu y dehonglir hwynt ar gyfer y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau arbennig yr Asiantaeth (LAA) er mwyn gallu rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi eu mabwysiadu gan yr LAA isod. Cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

### a) Sail y paratoi

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling wedi eu cyfannu i'r fil agosaf (£000) oni nodir yn wahanol. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gyfrif am ailbrisio asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

***Barn a ffynonellau amcangyfrifo***
Mae paratoi datganiadau ariannol yn gofyn defnyddio barn, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar nifer neu faint yr asedau a'r rhwymedigaethau ar ddyddiad y datganiadau ariannol ac ar faint yr incwm a'r gwariant a adroddir yn ystod y cyfnod adrodd.
Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol yn seiliedig ar ddata gan yr LAA, ar brofiad hanesyddol ac ar amrywiol ffactorau eraill. Credir eu bod yn darparu sail resymol ar gyfer gallu rhoi amcangyfrif o werthoedd llyfr yr asedau a'r rhwymedigaethau nad ydynt ar gael yn barod o ffynonellau eraill.

Y prif bethau yr amcangyfrifir yn eu cylch gan reolwyr yw asedau anniriaethol (nodyn 8), derbyniadau masnachol ac eraill (11) a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (15).

***Busnes hyfyw***
Mae'r LAA yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a sefydlwyd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 i gomisiynu, caffael a thalu am wasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr (cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a'r sector di-wneud-elw). Mae disgwyl i'r MoJ gyllido gweithgareddau'r LAA yn y dyfodol gydag arian y pleidleisir arno'n flynyddol o dan y Ddeddf Dyraniadau berthnasol. Barn yr LAA yw bod y cysyniad o fusnes hyfyw'n berthnasol cyn belled ag y mae darpariaethau Deddf LASPO 2012 yn parhau i fodoli.

## b) Newidiadau mewn datgeliadau a pholisïau cyfrifyddu

***Newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu***
Nid oes unrhyw newid wedi bod mewn polisïau cyfrifyddu am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

***Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig***
Nid oes unrhyw safonau newydd na diwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017 sy'n cael effaith o bwys ar Gyfrifon yr LAA.

**Safonau newydd, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond heb ddod i rym am y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2017 a heb gael eu mabwysiadu'n gynnar**

Nid yw IFRS 9 Offerynnau Ariannol, IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid, ac IFRS 16 Prydlesi, eto mewn grym ar gyfer adroddiadau'r sector cyhoeddus.

Gallai IFRS 9 gael effaith ar y fethodoleg amhariad a ddefnyddir gan yr LAA i brisio dyledion sy'n parhau i fod yn ddyledus, ond ni ddisgwylir i hyn gael effaith o bwys ar gyfrifon yn y dyfodol.

Ni ddisgwylir i IFRS 15 gael unrhyw effaith ar gyfrifon yr LAA yn y dyfodol.

Bydd IFRS 16 yn newid y ffordd y mae'r LAA yn cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu ei brydlesi. Mae'r safon yn darparu model cyfrifyddu prydlesai sengl yn gofyn bod prydleseion yn cydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai fod cyfnod y brydles yn 12 mis neu'n llai neu mae'r ased o werth isel. Ni wyddys beth fydd effaith lawn IFRS 16 ar yr LAA hyd nes y caiff ei fabwysiadu i'w ddefnyddio yn y sector cyhoeddus gan y FReM.

## c) Incwm

Mae incwm yr LAA yn cynnwys cyfraniadau gan gwsmeriaid a ariannir, costau a adenillir gan gwsmeriaid a ariannir neu eraill, gan gynnwys taliadau statudol, arian iawndal ac o incwm gweinyddol. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar y pwynt pan fo'n debygol y bydd y budd economaidd sy'n gysylltiedig ag ariannu achos yn llifo i'r LAA.

***Costau adenilladwy***
Lle mae'r dyfarniad i'r cwsmer a ariannir yn cael ei setlo cyn gwrandawiad llys, mae'r incwm yn cael ei gydnabod pan ddaw'n ddyledus i'r LAA, gyda'r symiau setlo'n cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol rhwng y ddwy ochr yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

***Costau wedi eu hadennill o iawndal a thaliadau statudol***
Pan fydd costau a achoswyd wrth ariannu achos yn cael eu hadennill gan gwsmeriaid a ariannir neu eraill, cyfrifir am y symiau hyn fel incwm pan aseswyd eu bod yn ddyledus i'r LAA. Gellir adennill y symiau'n dilyn dyfarnu costau ac iawndal, lle bo'n berthnasol.

***Prawf Modd Llys y Goron***
Ar gyfer cynllun Prawf Modd Llys y Goron (CCMT), mae incwm yn cael ei gydnabod pan fo'r dyfarniad yn hysbys a'r cyfrifiad terfynol o gyfanswm cyfraniad y ceisydd wedi cael ei asesu.

### d) Gwariant

Mae gwariant yn cynnwys symiau taladwy, gan gynnwys amcan-werth gwaith a gwblhawyd gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol na filiwyd ar ei gyfer eto, am wasanaethau i gwsmeriaid a ariannir, ad-daliad cyfraniadau i gwsmeriaid a ariannir, costau a ddyfernir i bartïon eraill a chostau eraill yn gysylltiedig â darparu cyngor a chymorth cyfreithiol. Mae costau eraill yn cynnwys cost staff (gan gynnwys dyrannu costau pensiwn) a chostau gweinyddol rhedeg yr LAA.

### e) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys balansau gyda banciau masnachol, yn cynnwys rhai a weinyddir drwy Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS), sydd â chyfnod aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

### f) Darpariaethau

Darpariaeth yw rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr LAA rwymedigaeth gyfreithiol neu ddealledig, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, a lle mae'n debyg y bydd angen i fudd economaidd lifo allan i setlo'r rhwymedigaeth a lle gellir amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Mae darpariaeth yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae'r effaith yn un o bwys, caiff yr amcan-swm llif arian ei ddisgowntio. Mae effaith y disgownt yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

***Symiau sy'n ddyledus ar achosion a ariannir***
Mae'r LAA yn cydnabod ei rwymedigaeth i dalu am waith a gwblhawyd ar y dyddiad adrodd ond na filiwyd amdano eto. Cynhyrchir amcangyfrifon ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol, gan gynnwys Cynrychiolaeth Sifil, Help Cyfreithiol Sifil, Troseddol Uwch a Throseddol Is yn defnyddio'r data sydd ar gael a thechnegau modelu ystadegol. Disgrifir y rhagdybiaethau a ddefnyddir gan reolwyr i gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn o dan adnabod a rheoli risg ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

***Darpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus yng nghyswllt achosion wedi eu hariannu'n breifat (Cronfeydd Canolog)***
O dan delerau Deddf Erlyn Troseddau 1985, gall diffynyddion sy'n cael eu rhyddfarnu a wnaeth gais am gymorth cyfreithiol ond heb lwyddo, o dan rai amgylchiadau, dderbyn gorchymyn gan Lys y Goron i adennill eu costau. Mae'r LAA yn amcangyfrif gwerth y costau na filiwyd amdanynt i gyrraedd y swm a ddatgelir yn y datganiadau ariannol fel darpariaeth. Mae'r swm yma'n amcan-swm o'r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

***Costau dadfeilio eiddo prydles***

***Darperir ar gyfer amcan-gostau dadfeilio yng nghyswllt adeiladau prydles. Mae'r ddarpariaeth wedi ei hamcangyfrif ar sail cyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y brydles berthnasol.***

Costau cyfreithiol
Gwneir darpariaeth ar gyfer costau pan fo'n debygol y bydd angen i adnoddau lifo allan i setlo rhwymedigaeth gyfredol.

**g) Prydlesi gweithredol**

**Codir taliadau rhent ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y brydles wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r LAA yn cyfrif am gymhellion prydles (cyfnodau di-rent) dros dymor y brydles.**

**h) Offerynnau ariannol**

***Asedau ariannol***
***Mae asedau ariannol yr LAA yn cynnwys arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, a derbyniadau masnachol ac eraill. Asedau ariannol anneilliadol yw derbyniadau Masnachol ac eraill, gyda thaliadau sefydlog neu benodol ac ni ddyfynnir hwynt mewn unrhyw farchnad weithredol. Nid oes gan yr LAA fwriad i fasnachu'r derbyniadau hyn, sy'n cynnwys symiau dyledus gan gyflenwyr cymorth cyfreithiol a chwsmeriaid a ariannir***

***Cydnabod cychwynnol a mesur***

Mae derbyniadau'n cael eu cydnabod yn gychwynnol ar sail eu swm crynswth, wedi'i addasu i ystyried gwerth amser yr arian dros gyfnod eu casglu, ar sail cyfraddau disgownt a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

***Ar ôl eu cydnabod yn gychwynnol, mae'r asedau hyn yn cael eu cario ar sail cost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio cyfradd llog effeithiol, llai unrhyw amhariad ac addasiad gwerth teg pellach. Mae unrhyw dderbyniad llog neu golled oherwydd amhariad yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Datgelir y derbyniadau i gyd fel rhai dyledus ymhen blwyddyn er, yn achos dyledion taliadau statudol, gellir gohirio gorfodi'r ddyled. Gall ad-dalu dyledion gohiriedig gymryd mwy na blwyddyn i'w hadennill.***

***Datgydnabod***
Mae benthyciadau a derbyniadau'n cael eu datgydnabod pan fydd yr hawl i dderbyn llif arian o'r ased wedi dod i ben.

Rhwymedigaethau ariannol

***Cydnabod cychwynnol a mesur***
Mae rhwymedigaethau ariannol yr LAA yn cynnwys taladwyon masnachol ac eraill. Nid yw'r rhain yn cael eu hailbrisio ar ôl eu cydnabod yn gychwynnol oherwydd offerynnau syml gyda chyfnodau aeddfedu tymor byr ydynt. Nid oes gan yr LAA bwerau i fenthyg arian.

***Datgydnabod***
Mae rhwymedigaeth ariannol yn cael ei datgydnabod pan gaiff yr ymrwymiad o dan y rhwymedigaeth ei gyflawni, ei ganslo neu mae'n dod i ben

Gwerth teg offerynnau ariannol
Mae gwerth teg offerynnau ariannol yr LAA yn cael ei bennu drwy ddefnyddio technegau prisio priodol. Gall y technegau hyn gynnwys dadansoddi llif arian wedi'i ddisgowntio, neu fodelau prisio eraill.

Rhoddir dadansoddiad o werthoedd teg offerynnau ariannol, a manylion pellach am eu mesur, o dan werthoedd teg (nodyn 14) yn y datganiadau ariannol hyn.

***Gwrthbwyso offerynnau ariannol***
**Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei adrodd yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol dim ond os oes hawl gyfreithiol orfodadwy i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bwriad i setlo ar sail net.**

**i) Amhariad ar asedau ariannol**

Mae asesiad o a oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad yn cael ei wneud gyda phob ased ariannol neu grwpiau o asedau ariannol ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Gall yr asesiad hwn fod o asedau unigol (amhariad unigol) neu o bortffolio o asedau (amhariad cyfunol).

Gwneir asesiad o amhariad cyfunol pan fydd yr asedau ariannol gyda nodweddion risg tebyg. Gyda'r asedau hyn, defnyddir profiad blaenorol yr LAA o golledion ym mhob portffolio i amcangyfrif maint yr amhariad ar y dosbarth asedau hwnnw. Lle gwneir yr amcangyfrif hwn, gwneir darpariaethau amhariad i leihau gwerthoedd llyfr yr asedau ariannol i adlewyrchu hynny. Rhoddir mwy o fanylion am y model prisio a ddefnyddir i wneud yr amcangyfrif hwn, a'r union amhariadau yn erbyn derbyniadau'r LAA, o dan adnabod a rheoli risg ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

Ar gyfer amhariad unigol, y brif golled yw colli un neu fwy o daliadau, er y gellir hefyd ystyried colledion eraill, gan gynnwys trefniadau yn eu lle i dalu llai na'r taliadau cytundebol, twyll a methdaliad neu arwyddion eraill o drafferthion ariannol.

Lle mae tystiolaeth wrthrychol bod colled amhariad wedi digwydd ar fenthyciadau a derbyniadau, gwneir darpariaethau amhariad i leihau gwerthoedd llyfr yr asedau ariannol i werth teg y llif arian tybiedig yn y dyfodol.

## j) Cyfrifo Treth ar Werth

Mae Treth ar Werth (TAW) na ellir ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol, neu lle bo'n briodol, yn cael ei chyfalafu gydag ychwanegiadau i asedau anghyfredol. Dangosir incwm a gwariant, fel arall, net o TAW.

## k) Asedau trydydd parti

Cyfrifon adnau ar gyfer cwsmeriaid a ariannir
Mae dyfarniadau iawndal i gwsmeriaid a ariannir yn cael eu talu i'r LAA i ddechrau. Mae'r LAA yn adneuo'r cronfeydd hyn tan fydd costau terfynol yr achos wedi eu cyfrifo. Bydd unrhyw iawndal a chyfraniadau sy'n weddill yna'n cael eu talu i'r cwsmer a ariannir. Cyfrifir am y cronfeydd hyn fel asedau sy'n cael eu dal ar ran trydydd partïon, ac felly, nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae dyfarniadau iawndal sy'n cael eu talu i'r LAA yn denu llog ar ôl cyfnod o gymhwyso

***Prawf Modd Llys y Goron***
Gallai cyfraniadau fod yn daladwy i'r LAA, tuag at gost dwyn achos yn Llys y Goron, mewn achosion a fu'n destun prawf modd. Mae'r LAA yn adneuo'r cronfeydd hyn ac yn cyfrifo amdanynt fel arian sy'n cael ei ddal ar ran trydydd partïon ac, felly, nid yw'n cael ei gydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Unwaith y penderfynnir ar y dyfarniad a'r costau terfynol, os ceir y ceisydd yn euog, bydd gwerth y cronfeydd hyd at y trothwy costau'n ddyledus i'r LAA. Os ceir y ceisydd yn ddieuog, mae'r cyfraniadau a dalwyd i'r LAA yn cael eu had-dalu gan gynnwys llog wedi'i gyfrifo ar 2% y flwyddyn o'r dyddiad talu.

**Adroddir symudiad mewn cronfeydd trydydd parti o dan asedau trydydd parti (nodyn 20) yn y datganiadau ariannol hyn**

## l) Buddion gweithwyr

Mae'r LAA yn cronni ar gyfer costau disgwyliedig hawl ei gweithwyr i wyliau blynyddol yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 'Buddion Gweithwyr'. Mae'r LAA yn amcangyfrif y gost gronnus hon drwy gyfrifo gwerth cyfartalog y gwyliau sydd heb eu cymryd ar draws pob band cyflog a defnyddio'r gwerth hwn i roi cyfanswm.

### m) Y Gronfa Gyffredinol

Cyllid cyflenwi
Mae cyllid cyflenwi sy'n cael ei dderbyn gan yr MoJ yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr pan ddaw'r cyllid i law. O bryd i'w gilydd drwy'r flwyddyn, mae'r LAA yn derbyn cyllid cyflenwi gan yr MoJ, a gyfrifir ar sail arian parod.

***Addasiadau rhyng-adrannol***
*Mae addasiadau rhyng-adrannol yn ymwneud â setliad rhwng yr LAA a'r MoJ yng nghyswllt i) trosglwyddiadau eiddo, peiriannau a chyfarpar, a ii) trafodion prynu a gwerthu rhyng-gwmnïau drwy'r gronfa gyffredinol.*

### n) Asedau a rhwymedigaethau wrth gefn

Datgelir rhwymedigaeth wrth gefn pan fydd y tebygolrwydd o daliad yn llai na thebygol, ond yn fwy na diobaith. Yn ogystal â rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir yn unol ag IAS 37 'Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn, ac Asedau Wrth Gefn', mae'r LAA yn datgelu, i bwrpas atebolrwydd ac adrodd i'r Senedd, rhai rhwymedigaethau wrth gefn statudol ac anstatudol lle mae bron yn ddiobaith y bydd budd economaidd yn trosglwyddo, fel sy'n ofynnol o dan 'Managing Public Money'.

Datgelir asedau wrth gefn lle mae ased debygol yn codi o ddigwyddiad blaenorol a lle bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau pan fydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr LAA, yn digwydd neu ddim yn digwydd. Datgelir ased wrth gefn lle mae budd economaidd yn debygol o lifo i mewn.

### o) Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd', mae digwyddiadau'n cael eu hystyried hyd at y dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi, a ddehonglir fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### p) Asedau ar ganol eu creu

Mae asedau ar ganol eu creu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar, ac asedau anniriaethol ac nid ydynt yn cael eu disbrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â chael ei dosbarthu fel ased ar ganol ei chreu pan fydd yn barod i'w defnyddio. Mae ei gwerth llyfr yna'n cael ei ddileu o'r asedau ar ganol eu creu a'i drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Mae'r dibrisiad neu'r amorteiddiad yna'n cael ei godi ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol.

**Mae gwariant yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio, fel costau contractwr allanol a chostau staff perthnasol.**

### q) Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd cyfrifiadurol a grewyd yn fewnol (gan gynnwys asedau ar ganol eu creu) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd penodol ac unigryw, fel costau contractwr allanol a chostau staff perthnasol, yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod canlynol:

Pan fydd yr LAA yn cymhwyso trothwy cyfalafu ar gyfer asedau anniriaethol o £10,000.

Caiff asedau anniriaethol, ac eithrio asedau ar ganol eu creu, eu hail-ddatgan ar sail gwerth teg eu defnydd presennol bob blwyddyn drwy fynegeio tan ddiwedd y flwyddyn yn defnyddio Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr (PPI) ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### r) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar sy'n costio mwy na'r trothwy cyfalafu o £10,000 yn cael eu trin fel asedau cyfalaf. Lle mae eitem yn costio llai na'r trothwy cyfalafu ond mae'n rhan o ased neu grŵp o asedau, gyda chyfanswm gwerth mwy na'r lefel gyfalafu, mae'r eitem yn cael ei thrin fel ased gyfalaf.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu hail-ddatgan ar sail eu gwerth teg bob blwyddyn drwy fynegeio hyd at ddiwedd y flwyddyn yn defnyddio PPI ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### s) Dibrisio ac amorteiddio

Ac eithrio asedau ar ganol eu creu, caiff pob ased anghyfredol ei dibrisio neu ei hamorteiddio ar sail llinell syth er mwyn dileu cost yr ased dros gyfnod tybiedig ei hoes ddefnyddiol fel hyn:

| | |
|---|---|
| Gosodion a ffitiadau | 5 Years |
| Dodrefn a chyfarpart | 3 to 5 Years |
| Technoleg gwybodaeth | 3 to 5 Years |
| Meddalwedd cyfrifiadurol | 3 to 15 Years |

### t) Amhariad ar asedau anariannol

Ar bob dyddiad adrodd mae'r LAA yn adolygu symiau llyfr (neu symiau cario) ei eiddo, peiriannau a chyfarpar, a'i asedau anniriaethol, i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef amhariad. Os awgrymir bod hyn wedi digwydd, gwneir amcan o werth teg yr ased er mwyn mesur maint y golled oherwydd amhariad.

Mae amhariadau sy'n adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth ased, o ganlyniad i ragdybiaeth glir o fudd economaidd neu botensial gwasanaeth, yn cael eu codi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, gydag unrhyw falans ar ôl yn y gronfa ailbrisio'n cael ei ryddhau i'r gronfa gyffredinol.

Pan fydd gwerth llyfr ased yn lleihau (ac nid o ganlyniad i ostyngiad parhaol), mae'r lleihad yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio i'r graddau bod balans yn bodoli ar gyfer yr ased honno. Codir unrhyw leihad sydd dros y balans ailbrisio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae unrhyw wrthdroad o swm amhariad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau y cafodd y swm gwreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw ddibrisio sy'n digwydd wedyn, ei gydnabod yno'n flaenorol. Mae'r swm sy'n weddill yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio.

## u) Ailbrisio

Pan fydd gwerth llyfr ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, mae'r cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel ei fod yn gwrthdroi lleihad dibrisio yng nghwerth yr un ased a gafodd ei chydnabod yn flaenorol yno. Mae unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Mae unrhyw ddibrisiad sydd wedi cronni ar ddyddiad yr ailbrisio'n cael ei ddileu yn erbyn gwerth llyfr crynswth yr ased. Mae'r gwerth net yn cael ei ail-ddatgan ar sail gwerth ailbrisio'r ased.

Mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad ar sail gwerth llyfr yr ased a ailbrisiwyd a ailgodwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a dibrisiad ar sail cost wreiddiol yr ased, yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol bob blwyddyn.

## v) Symiau tybiannol yr ailgodir amdanynt

***Symiau tybiannol yr ail-godwyd amdanynt gan yr MoJ***

Y symiau tybiannol yr ailgodir amdanynt gan yr MoJ yw defnydd yr LAA o wasanaethau corfforaethol.

***Ffioedd archwilio tybiannol***

Mae cost yr archwiliad a gyflawnir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chydnabod fel tâl di-arian parod.

### w) Llog a dderbynnir ar daliadau statudol

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 a Deddf LASPO 2012, lle mae cwsmeriaid a ariannir wedi adennill neu ddiogelu eiddo yn lle derbyn iawndal, gellir sicrhau costau adenilladwy drwy godi tâl yn erbyn yr eiddo. O dan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol 2000 fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion lle mae llog o 8% y flwyddyn i'w dalu ar y prif falans dyledus.

### x) Pensiynau

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
Cynllun buddion diffiniedig nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), lle nad yw'r LAA yn gallu nodi faint yw ei siâr o'r asedau a'r rhwymedigaethau.  Yn unol â FReM, mae'r LAA yn cyfrif am y rhain fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r LAA yn cydnabod cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel traul yn y flwyddyn yr achosir hwynt, gyda'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddealledig wedi'i chyfyngu i'r swm y mae'n cytuno i'w gyfrannu i'r gronfa.

### y) Adrodd ar segmentau

Caiff segmentau gweithredol eu penderfynu'n unol ag IFRS 8 'Segmentau Gweithredol' ar sail pa wybodaeth a gyflwynir i Fwrdd yr LAA, er mwyn gwneud penderfyniadau.

### z) Arweinyddiaeth drwy wneud

Yn Nhachwedd 2016 cyflwynodd Ysgrifennydd Parhaol yr MoJ, Richard Heaton, ei gynlluniau i gyflwyno arweinyddiaeth drwy wneud ar gyfer wyth maes busnes: Cyllid, Masnachol, AD, Ystadau, Darparu Prosiectau (rheoli lle), Gwasanaethau Dadansoddi, Cyfathrebu, a Digidol a Thechnoleg.

Mae'r model arweinyddiaeth drwy wneud yn uno tua 1,000 o wasanaethau corfforaethol a phroffesiynol ac yn golygu creu timau gyda chyd-strategaethau a chyd-gynlluniau i roi ffocws cryfach a blaenoriaethu adnoddau'n well ar draws yr MoJ.

Yn 2017-18 roedd timau perthnasol yr LAA yn cynnwys Cyfathrebu Mewnol, Digidol, a Chyllid. Mae'r staff hyn wedi symud i Adran Graidd yr MoJ gan effeithio ar gostau a niferoedd staff yr LAA.

Dangosir effaith yr arweinyddiaeth drwy wneud yn nodyn 22 yn y datganiadau ariannol hyn.

# Yr Asiantaeth Cymorth CyfreithiolNodiadau ar y Datganiadau Ariannol (parhad) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

## Nodyn 2 – Dadansoddiad o segmentau

Mae'r LAA yn rhannu'r costau gweithredol net yn dri segment: Y Gronfa Cymorth Cyfreithiol, y Gronfa Weinyddol a'r Gronfa Ganolog, i bwrpas gwneud penderfyniadau gweithredol ac adrodd i Fwrdd yr LAA.

Mae'r segment Gweinyddol yn adlewyrchu costau rhedeg yr LAA.

Mae'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol wedi'i his-rannu ymhellach yn Help Cyfreithiol, Cynrychiolaeth Sifil, Troseddol Is, a Troseddol Uwch.

- Mae Help Cyfreithiol yn golygu rhoi cyngor a chymorth gyda mater cyfreithiol.
- Mae Cynrychiolaeth Sifil yn golygu cynrychiolaeth gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr mewn achosion sifil a allai fynd i'r llys.
- Mae Troseddol Is yn golygu cynrychiolaeth gyfreithiol i rai a gyhuddir o droseddau mewn Llysoedd Ynadon a gorsafoedd yr heddlu.
- Mae Troseddol Uwch yn golygu'r un gynrychiolaeth yn Llys y Goron, y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys

Cronfeydd Canolog yw gwariant ar orchymyn a wnaed i ddiffynydd wedi'i ryddfarnu ac a dalodd yn breifat am ei gynrychiolaeth gyfreithiol.

Dengys y tabl canlynol y costau gweithredol net yn ôl segment, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CRONFA | | |
| Help Cyfreithiol | 99,088 | 92,656 |
| Cynrychiolaeth Sifil | 559,510 | 538,456 |
| Troseddol Is | 270,887 | 278,786 |
| Troseddol Uwch | 655,462 | 633,718 |
| CRONFEYDD CANOLOG | 53,889 | 47,985 |
| GWEINYDDOL | 81,386 | 95,041 |
| Costau gweithredol net am y flwyddyn | 1,720,222 | 1,686,642 |

## Nodyn 3 – Costau Staff

| | 2017-18 | 2017-18 | 2017-18 | 2016-17 | 2016-17 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol wedi eu hail-ddatgan | Staff eraill wedi eu hail-ddatgan | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau misol ac wythnosol | 36,209 | 830 | 37,039 | 41,540 | 1,530 | 43,070 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,690 | – | 3,690 | 4,165 | – | 4,165 |
| Costau pensiwn eraill | 6,780 | – | 6,780 | 8,017 | – | 8,017 |
| | 46,679 | 830 | 47,509 | 53,722 | 1,530 | 55,252 |
| Llai costau wedi eu hadennill am secondio staff allan | (53) | – | (53) | (142) | – | (142) |
| Dileu swyddi | 37 | – | 37 | 141 | – | 141 |
| | 46,663 | 830 | 47,493 | 53,721 | 1,530 | 55,251 |
| Aelodau Bwrdd Anweithredol (ffioedd a buddion) | 29 | – | 29 | 29 | – | 29 |
| | 29 | – | 29 | 29 | – | 29 |
| Cyfanswm | 46,692 | 830 | 47,522 | 53,750 | 1,530 | 55,280 |

1 Mae'r costau dileu swyddi yn y tabl uchod yn ymwneud ag un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (2016-17: 3).2 Mae costau staff i lawr o'i gymharu â 2016-17 oherwydd cyflwyno arweinyddiaeth drwy wneud a bod staff yn cael eu talu drwy Adran Graidd y MoJ. Am fwy o wybodaeth wele nodyn 1z ar dudalen 79 a nodyn 22 ar dudalen 98.

## Nodyn 4 – Gwariant o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CYNRYCHIOLAETH SIFIL | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr a bargyfreithwyr (yn y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 718,903 | 697,137 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | (20,959) | (5,975) |
| Ad-dalu cyfraniadau | 567 | 793 |
| Costau partïon llwyddiannus heb dderbyn cymorth cyfreithiol | 667 | 1,091 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | (3,826) | 7,094 |
| Disgowntio dyledion | 548 | 291 |
| | 695,900 | 700,431 |
| HELP CYFREITHIOL SIFIL | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr a bargyfreithwyr (yn y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 92,570 | 97,910 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 758 | (8,548) |
| Gwasanaethau uniongyrchol | 5,244 | 5,603 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | 126 | (2,313) |
| Disgowntio dyledion | 30 | (326) |
| | 98,728 | 92,326 |
| TROSEDDOL IS | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr a bargyfreithwyr (yn y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 264,813 | 267,808 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 824 | 7,072 |
| Gwasanaethau uniongyrchol a gwasanaeth yr amddiffynnydd cyhoeddus | 3,718 | 3,572 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | (152) | (1,108) |
| Disgowntio dyledion | (17) | (156) |
| | 269,186 | 277,188 |
| TROSEDDOL UWCH | | |
| Ffioedd a chostau cyfreithwyr a bargyfreithwyr (yn y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn y flwyddyn | 642,723 | 612,678 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 32,110 | 39,456 |
| Gwasanaethau uniongyrchol a gwasanaeth yr amddiffynnydd cyhoeddus | 291 | 272 |
| Amhariad dyledion a dileu dyledion | 12,442 | 7,776 |
| Disgowntio dyledion | 1,932 | 3,029 |
| | 689,498 | 663,211 |
| CRONFEYDD CANOLOG | | |
| Gwariant cronfeydd canolog (yn y flwyddyn – nodyn 15) | | |
| Gorchmynion costau amddiffyn a ddyfarnwyd yn Llys y Goron a'r Llysoedd Ynadon | 36,923 | 34,213 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiad oherwydd gwaith anorffenedig | 4,441 | 2,861 |
| Costau cyfieithu ar y pryd | 12,525 | 10,910 |
| | 53,889 | 47,984 |
| Cyfanswm | 1,807,201 | 1,781,140 |

## Nodyn 5 – Gwariant gweithredol arall

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Costau swyddfeydd a chysylltiedig | 2,147 | 3,264 |
| Costau rhedeg swyddfeydd, TG a gwasanaethau | 2,535 | 14,732 |
| Costau staff ac aelodau pwyllgor cysylltiedig | 937 | 1,346 |
| Prydlesi gweithredol | 2,695 | 2,666 |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | 1,122 | 1,346 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth gyda HMCTS | 140 | 172 |
| Costau gweinyddol eraill | 358 | 2,171 |
| | 9,934 | 25,697 |
| COSTAU DI-ARIAN PAROD | | |
| Colledion wrth waredu / gwerthu asedau | – | 14 |
| Symudiad yn y darpariaethau ar gyfer costau cyfreithiol a dadfeilio | (486) | 428 |
| Symiau tybiannol yr ail-godir amdanynt gan yr MoJ | 9,181 | 9,841 |
| Symiau arweinyddiaeth drwy wneud yr ail-godir amdanynt gan yr MoJ | 12,573 | - |
| Ffioedd tybiannol archwilwyr allanol | 190 | 200 |
| Amorteiddio prydlesi gweithredol | (134) | (155) |
| | 21,324 | 10,328 |
| Cyfanswm | 31,258 | 36,025 |

## Nodyn 6 – Incwm o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CYNRYCHIOLAETH SIFIL | | |
| Cyfraniadau gan gwsmeriaid a ariannir | 4,795 | 9,069 |
| Costau adenilladwy | 118,860 | 134,487 |
| Costau wedi eu hadennill o iawndal a thaliadau statudol | 7,103 | 12,221 |
| | 130,758 | 155,777 |
| ACHOSION TROSEDDOL | | |
| Costau wedi eu hadennill o Lys y Goron | 37,298 | 33,099 |
| Costau amddiffyn wedi eu hadennill | – | 7 |
| | 37,298 | 33,106 |
| Cyfanswm | 168,056 | 188,883 |

## Nodyn 7 – Cysoni Nodyn 8 Asedau Anniriaethol a Nodyn 9 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar â'r Datganiad Llif Arian

| | 2017-18<br>£000 | 2016-17<br>£000 |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau anniriaethol (nodyn 8) | 6,390 | 8,582 |
| Lleihad / (cynnydd) mewn croniadau cyfalaf | 781 | (140) |
| Cyfanswm yr asedau anniriaethol a brynwyd am bob Datganiad Llif Arian | 7,171 | 8,442 |
| Ychwanegiadau eiddo, peiriannau a chyfarpar (nodyn 9) | – | 586 |
| Cyfanswm yr eiddo, peiriannau a chyfarpar a grynwyd am bob Datganiad Llif Arian | – | 586 |

## Nodyn 8 – Asedau anniriaethol

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU<br>£000 | MEDDALWEDD CYFRIFIADUROL<br>£000 | CYFANSWM<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2017 | 18,480 | 90,337 | 108,817 |
| Wedi eu hailddosbarthu | (19,223) | 19,117 | (106) |
| Ychwanegiadau | 6,390 | – | 6,390 |
| Wedi eu trosglwyddo i'r MoJ | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | 1,810 | 1,810 |
| Cost ar 31 Mawrth 2018 | 5,647 | 111,264 | 116,911 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 1 Ebrill 2017 | – | 52,656 | 52,656 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | 7,160 | 7,160 |
| Wedi eu trosglwyddo i'r MoJ | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | 1,164 | 1,164 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 31 Mawrth 2018 | – | 60,980 | 60,980 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 5,647 | 50,284 | 55,931 |

Mae cyfanswm yr ychwanegiadau'n cynnwys £356k (2016-17: £1,137k) o groniadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2018.

Mae balans y gronfa ailbrisio wrth gefn o £3,245k yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr yn cynnwys £2,559k (2016-17: £2,521k) ar gyfer asedau anniriaethol ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r LAA yn berchen ar yr holl asedau anniriaethol.

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU | MEDDALWEDD CYFRIFIADUROL | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2016 | 11,235 | 83,928 | 95,163 |
| Wedi eu hailddosbarthu | (1,492) | 1,523 | 31 |
| Ychwanegiadau | 8,528 | 54 | 8,582 |
| Wedi eu gwaredu / gwerthu | – | (76) | (76) |
| Wedi eu trosglwyddo o'r MoJ | 209 | – | 209 |
| Wedi eu hailbrisio | – | 4,908 | 4,908 |
| Cost ar 31 Mawrth 2017 | 18,480 | 90,337 | 108,817 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 1 Ebrill 2016 | – | 43,171 | 43,171 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | 7,110 | 7,110 |
| Wedi eu gwaredu / gwerthu | – | (62) | (62) |
| Wedi eu trosglwyddo o'r MoJ | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | 2,437 | 2,437 |
| Wedi eu hamorteiddio ar 31 Mawrth 2017 | – | 52,656 | 52,656 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017 | 18,480 | 37,681 | 56,161 |

## Nodyn 9 – Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU | DODREFN A CHYFARPAR | TECHNOLEG GWYBODAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2017 | 202 | 239 | 19,457 | 19,898 |
| Wedi eu hailddosbarthu | 106 | – | – | 106 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 383 | 383 |
| Cost ar 31 Mawrth 2018 | 308 | 239 | 19,840 | 20,387 |
| | | | | |
| Wedi dibrisio ar 1 Ebrill 2017 | – | 239 | 15,412 | 15,651 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | – | 1,597 | 1,597 |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 341 | 341 |
| Wedi dibrisio ar 31 Mawrth 2018 | – | 239 | 17,350 | 17,589 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 308 | – | 2,490 | 2,798 |

Mae balans y gronfa ailbrisio wrth gefn o £3,245k yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr yn cynnwys £686k (2016-17: £644k) ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r LAA yn berchen ar yr holl eiddo, peiriannau a chyfarpar.

| | ASEDAU AR GANOL EU CREU | DODREFN A CHYFARPAR | TECHNOLEG GWYBODAETH | |
|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | £000 | £000 | |
| Cost ar 1 Ebrill 2016 | 748 | 208 | 17,298 | 18,254 |
| Wedi eu hailddosbarthu | (788) | – | 757 | (31) |
| Ychwanegiadau | 242 | – | 344 | 586 |
| Wedi eu trosglwyddo o'r MoJ | – | 31 | – | 31 |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 1,058 | 1,058 |
| Cost ar 31 Mawrth 2017 | 202 | 239 | 19,457 | 19,898 |
| | | | | |
| Wedi dibrisio ar 1 Ebrill 2016 | – | 208 | 11,764 | 11,972 |
| Wedi eu hailddosbarthu | – | – | – | – |
| Yr ailgodwyd amdanynt yn y flwyddyn | – | – | 2,959 | 2,959 |
| Wedi eu trosglwyddo o'r MoJ | – | 31 | – | 31 |
| Wedi eu hailbrisio | – | – | 689 | 689 |
| Dibrisio ar 31 Mawrth 2017 | – | 239 | 15,412 | 15,651 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017 | 202 | – | 4,045 | 4,247 |

## Nodyn 10 – Adnabod a rheoli risg ariannol

Mae proses rheoli risg ariannol yr LAA yn ceisio galluogi adnabod yn gynnar ac yna gwerthuso a rheoli'n effeithiol y prif risgiau sy'n wynebu'r LAA. Sefydlwyd systemau i adolygu ac adlewyrchu newidiadau yn y farchnad cymorth cyfreithiol a gweithgareddau'r LAA.

### Risg cyfraddau llog

Nid yw'r LAA yn wynebu risg sylweddol o gyfraddau llog. Ar 31 Mawrth 2018, roedd £74.3m (2016-17: £77.2m) o ddyled taliadau statudol yn ddyledus, y rhan fwyaf ohoni gyda chyfradd llog benodol.

Mae arian a ddaw i'r LAA ar ran cwsmeriaid a ariannir yn cael ei adneuo nes y daw'r achos i ben. Mae llog yn cael ei dalu i gwsmeriaid a ariannir ar sail Cyfradd Prynu Rhwng Banciau Llundain.

Mae arian a ddaw i'r LAA yng nghyswllt cyfraniadau CCMT yn cael ei ddal tan fydd dyfarniad a chostau terfynol yr achos wedi eu penderfynu. Os ceir y ceisydd yn ddieuog, mae'r cyfraniadau a dalwyd i'r LAA yn cael eu had-dalu gan gynnwys llog wedi'i gyfrifo ar 2% y flwyddyn o ddyddiad derbyn y cyfraniad. Mae gweddill y cyfraniadau'n cael ei ddal fel arian parod.

Risg credydd

Risg credyd yw'r risg na fydd partïon contract yr offerynnau ariannol yn perfformio yn unol â thelerau'r contract neu'r offeryn. Mae'r LAA yn wynebu risg credyd wrth ymdrin â chwsmeriaid a ariannir a chyflenwyr ac o rai gweithgareddau cyllido.

Cynrychiolir y risg credyd uniongyrchol a wynebir gan offerynnau ariannol gan offerynnau sydd â gwerth teg net positif gan un o'r partïon ar 31 Mawrth 2018.
Mae'r LAA yn credu bod uchafswm unrhyw risg gredyd a wynebir ganddi fel a ganlyn:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 26,781 | 10,894 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 149,510 | 135,918 |
| Asedau trydydd parti | 17,455 | 17,079 |
| | 193,746 | 163,891 |

**Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys balansau gyda banciau masnachol, yn cynnwys rhai a weinyddir drwy'r GBS, sydd â chyfnodau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai. Ar 31 Mawrth 2018 nid oedd unrhyw warantau ariannol na rhwymedigaethau trydydd parti, ac eithrio symiau iawndal ar adnau a CCMT, oedd yn cynyddu risg credyd yr asedau ariannol uchod.**

**Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill**
Mae gan yr LAA risg gynhenid gyda derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill, oherwydd mae ei chasgliadau arian parod yn tueddu i fod yn gymhleth.

Mae'r LAA yn cydnabod y risg yma ac yn ei lliniaru yn achos dyledion taliadau statudol, lle gellir gohirio gorfodi'r ddyled, drwy sicrhau pridiannau tir a defnyddio polisïau rheoli credyd i adennill dyledion diwarant. Weithiau mae'r gwaith casglu dyledion yn cael ei gontractio allan i gasglwyr dyledion masnachol.

Adlewyrchir maint y risg yn y ddarpariaeth ar gyfer amhariad derbyniadau sy'n £212.4m (2016-17: £206.0m).

Mae'r rhan fwyaf o dderbyniadau masnachol a derbyniadau eraill yr LAA o ganlyniad i daliadau statudol, £74.3m (2016-17: £77.2m) allan o gyfanswm derbyniadau ar ôl amhariad o £149.5m (2016-17: £135.9m).

Mae cyfran uchel o'r rhain wedi eu gwarantu ar eiddo ac mae eu setlo'n cael ei ohirio tan y gwerthir yr eiddo. Mae'r rhain, ynghyd â derbyniadau eraill, yn cynnwys darpariaeth amhariad ar sail y derbyniadau setlo disgwyliedig.

Mae'r LAA yn darparu ar gyfer amhariad derbyniadau ar sail profiad hanesyddol o gasglu arian parod, ac asesiad rheolwyr o daliadau sy'n debygol o gael eu hadennill, ar gyfer pob categori o ddyled.
Mae model amhariad yr LAA yn defnyddio proffiliau adennill hanesyddol yn ôl categori dyled i roi amcan o'r ddarpariaeth sydd ei hangen yn erbyn y balansau dyled. Mae'r model amhariad wedi'i ategu gan ragdybiaethau penodol gan gynnwys: oes y ddyled, bod incwm cyson drwy'r flwyddyn yn cael ei dderbyn yn erbyn y ddyled, a bod y gyfradd ddisgownt yn 3.7% nominal a 0.7% real (2016-17: 3.7% nominal a 0.7% real).

**Rhagdybiaethau a brofwyd**
Ystyriwyd effaith yr opsiynau rhesymol canlynol yn lle'r rhagdybiaethau hyn:

- derbyn arian parod yn gyson drwy'r flwyddyn yn hytrach nag ar ddiwedd y flwyddyn
- defnyddio'r derbyniadau arian parod disgwyliedig i gyfrifo llif arian y ddarpariaeth amhariad +/-10%
- cyfradd ddisgownt +/-1% (Trysorlys EM sy'n pennu'r gyfradd hon)

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | CYNNYDD / (LLEIHAD) MEWN ASEDAU ARIANNOL NET | | |
|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | 2017-18 £m | 2016-17 £m |
| Arian parod a dderbyniwyd | Yn gyson drwy'r flwyddyn | 1.1 | 1.5 |
| Derbyniadau arian parod disgwyliedig | +10% | 10.1 | 10.2 |
| Derbyniadau arian parod disgwyliedig | -10% | (10.7) | (10.1) |
| Cyfradd ddisgownt | +1% | (6.2) | (5.4) |
| Cyfradd ddisgownt | -1% | 6.1 | 6.0 |

Drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau rhesymol posib eraill hyn, gallai gwerth teg yr asedau ariannol ar 31 Mawrth 2018 fod yn uwch o £17.3m (2016-17: £17.7m) neu'n is o £16.9m (2016-17: £15.5m).

Bydd y rhagdybiaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i newid os yw rheolwyr o'r farn bod rhagdybiaethau eraill yn adlewyrchiad gwell o'r tueddiadau.

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau
Mae'r LAA yn defnyddio modelau prisio cymhleth i amcangyfrifo gwerth symiau na filiwyd amdanynt gydag achosion byw. Mae pob rhagdybiaeth sylweddol yn y modelau darpariaeth wedi eu hadnabod, newid rhesymol wedi'i adnabod a'r effaith ar falans terfynol y gwaith anorffenedig wedi'i chyfrifo. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u fflecsio gan ganran y credir iddi fod yn briodol gan reolwyr i ddangos yr effaith ar y ddarpariaeth. Ar gyfer pob rhagdybiaeth a ddadansoddir i asesu sensitifrwydd, dim ond y rhagdybiaeth honno a newidir.

Darpariaethau ar gyfer gwaith cynrychiolaeth sifil a throseddol uwch anorffenedig yw'r balansau darpariaeth gwaith anorffenedig o bwys. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith cynrychiolaeth sifil anorffenedig yn £284.1m (2016-17: £305.0m) a'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith troseddol uwch anorffenedig yn £303.4m (2016-17: £271.4m).

**Darpariaeth ar gyfer Gwaith Cynrychiolaeth Sifil Anorffenedig**
Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer gwaith cynrychiolaeth sifil anorffenedig fesul achos drwy ddefnyddio patrymau gwaith blaenorol, gyda nifer o ganlyniadau cost a pharhad posib. Mae'r cyfrifiadau'n cael eu segmentu rhwng y gwahanol ffrydiau gwariant a rhwng gwahanol gerrig milltir ym mywyd achos.

Mae effaith defnyddio opsiynau rhesymol eraill yn lle’r mewnbynnau hyn wedi’i mesur isod:

- proffil parhad a chostau trosiannol yn defnyddio data hyd at fis Mawrth 2017
- parhad bilio rhwng + 15 diwrnod a -15 diwrnod
- rhagdybiaeth torbwynt ynghwsg + 180 diwrnod

### Rhagdybiaethau a brofwyd

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | | CYNNYDD | | (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Proffil parhad a chostau trosiannol | March 2017 profiles | 0.8 | March 2017 profiles | (0.8) |
| Parhad bilio | 15 days | 5.8 | 15 days | (4.6) |
| Rhagdybiaeth ynghwsg | 180 days | 23.8 | N/A | N/A |

Mae'r mewnbynnau uchod yn seiliedig ar ddata achosion, gyda haen o farn rheolwyr, er enghraifft wrth ddewis sawl blwyddyn o ddata achosion hanesyddol i’w defnyddio i greu proffiliau hanesyddol. Dylid nodi bod sensitifrwydd cynhenid y ddarpariaeth gwaith Cynrychiolaeth Sifil anorffenedig o’r fath fel y gallai symudiadau canrannol cymharol fach yn y mewnbynnau uchod arwain at grisialu'r amcangyfrifiad yn swm tra gwahanol.

Adolygir y rhagdybiaethau o bryd i’w gilydd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol.
Drwy ddefnyddio’r rhagdybiaethau rhesymol eraill hyn, gallai gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2018 fod yn uwch o £30.4m (2016-17: £59.8m) neu’n is o £5.4m (2016-17: £27.3m).

**Darpariaeth ar gyfer Gwaith Troseddol Uwch Anorffenedig**
Caiff y ddarpariaeth ar gyfer gwaith troseddol uwch anorffenedig ei hamcangyfrifo drwy ystyried ceisiadau achos a modelu'r cynnydd drwy’r system cymorth cyfreithiol. Yna caiff cyfrifiad ar wahân ei wneud i amcangyfrifo’r swm a dalwyd yn barod ar yr achosion hyn gan leihau balans y gwaith anorffenedig.

Mae effaith defnyddio opsiynau rhesymol eraill yn lle’r mewnbynnau hyn wedi’i mesur isod:

- Proffiliau prisiau rhwng +10.0% to -10.0%
- Proffil parhad achosion rhwng +5.0% to -5.0%
- Cyfraddau cwblhau rhwng +2.5% to -2.5%

### Rhagdybiaethau a brofwyd

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | | CYNNYDD | | (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Proffiliau prisiau | 10.0% | 26.6 | -10.0% | -26.7 |
| Proffiliau parhad achosion | 5.0% | 18.9 | -5.0% | -9.4 |
| Cyfraddau cwblhau | 2.5% | 23.0 | -2.5% | -25.4 |

Gallai newidiadau cymharol fach i’r mewnbynnau hyn greu gwahanol mawr i’r gwaith anorffenedig. Mae’r rhagdybiaethau’n cael eu hadolygu’n flynyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol.

Drwy ddefnyddio’r rhagdybiaethau rhesymol eraill hyn, gallai gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2018 fod yn uwch o £68.5m neu’n is o £61.5m.

Arian parod
Mae balansau arian parod yn cael eu cadw gyda banciau buddsoddi cryf. Dewisir y banciau oherwydd eu statws credyd a’u gallu i gwrdd â gofynion bancio beunyddiol yr LAA. Mae eu sgoriau credyd yn cael eu monitro’n barhaus. Nid yw'r LAA wedi cofnodi amhariad yn erbyn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, ac nid oes problem adennill wedi’i chanfod gyda’r balansau hyn, gan gynnwys asedau trydydd parti. Fel arfer mae eitemau o’r fath yn cael eu hadennill ar gais neu’n unol â threfniadau bancio arferol.

## Nodyn 11 – Derbyniadau masnachol ac eraill

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| SYMIAU'N DOD YN DDYLEDUS YMHEN BLWYDDYN: | | |
| Dyledion crynswth | 361,901 | 341,939 |
| Darpariaeth ar gyfer amhariad | (212,391) | (206,021) |
| Cyfanswm | 149,510 | 135,918 |
| YN ÔL ELFEN: | | |
| Cyfraniadau'n ddyledus gan gwsmeriaid a ariannir | 7,366 | 7,090 |
| Costau i'w hadennill | 840 | 1,005 |
| Iawndal | 112 | 286 |
| Symiau'n ddyledus gan ddarparwyr gwasanaeth | 21,798 | 17,311 |
| Adennill costau amddiffyn | 38,417 | 29,875 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 692 | 690 |
| Dyledwyr rhyng-adrannol | 4,250 | 994 |
| Derbyniadau eraill | 1,752 | 1,500 |
| Taliadau statudol a llog | 74,283 | 77,167 |
| Cyfanswm | 149,510 | 135,918 |

*O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 a Deddf LASPO 2012, lle mae cwsmeriaid a ariannir wedi adennill neu ddiogelu eiddo yn lle derbyn iawndal, gellir sicrhau costau adenilladwy drwy godi tâl yn erbyn yr eiddo. O dan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol 2000 fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion lle mae llog o 8% y flwyddyn i'w dalu ar y balans dyledus.*

Mae prisio derbyniadau masnachol ac eraill yn cynnwys elfen o amcangyfrifo; trafodwn hyn ymhellach o dan adnabod a rheoli risg ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

Swm net y ddyled taliadau statudol yw:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau statudol | 48,860 | 51,933 |
| Llog wedi cronni hyd yma | 25,423 | 25,234 |
| Cyfanswm | 74,283 | 77,167 |

Datgelir y derbyniadau i gyd fel rhai dyledus ymhen blwyddyn er, yn achos dyledion taliadau statudol, gellir gohirio gorfodi'r ddyled. Gall ad-dalu dyledion gohiriedig gymryd mwy na blwyddyn i'w hadennill.

## Nodyn 12 – Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 10,894 | 16,192 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 15,887 | (5,298) |
| Balans ar 31 Mawrth | 26,781 | 10,894 |

Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth ynghadw gyda:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 18,431 | 5,513 |
| Banciau masnachol | 8,350 | 5,381 |
| Cyfanswm arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 26,781 | 10,894 |

## Nodyn 13 - Taladwyon masnachol a rhwymedigaethau eraill

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn: | £000 | £000 |
| Symiau'n ddyledus i gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori | 64,988 | 71,642 |
| Ad-dalu cyfraniadau sy'n ddyledus i gwsmeriaid a ariannir | 1,373 | 1,572 |
| Croniadau ac incwm wedi'i ohirio | 99,676 | 99,696 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threth arall | 1,620 | 1,652 |
| Credydwyr rhyng-adrannol | 10,636 | 13,921 |
| Taladwyon eraill | 10,562 | 8,086 |
| Cyfanswm | 188,855 | 196,569 |

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | £000 | £000 |
| Croniadau ac incwm wedi'i ohirio | 448 | 571 |

## Nodyn 14 – Gwerthoedd teg

Isod nodir symiau llyfr a gwerthoedd teg ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ariannol yr LAA sy'n cael eu cario yn y datganiadau arianno.

| SYMIAU LLYFR A GWERTHOEDD TEG | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 149,510 | 135,918 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 26,781 | 10,894 |
| Taladwyon masnachol a rhwymedigaethau eraill | (189,303) | (197,140) |

Mae'r LAA o'r farn bod symiau llyfr yr arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, y taladwyon masnachol a'r rhwymedigaethau eraill yn agos at eu gwerth teg oherwydd cyfnodau aeddfedu tymor byr yr offerynnau hyn.

TMae derbyniadau masnachol ac eraill wedi cael eu disgowntio dros y cyfnod o'r dyddiad adrodd i'r dyddiad casglu disgwyliedig. Mae hyn yn cael effaith o bwys ar eu gwerth presennol.

I ystyried effaith gwerth amser yr arian, defnyddiwyd techneg o amcangyfrifo drwy ddisgowntio'r holl falansau derbyniadau dros gyfnodau'n cyfateb i batrymau llif arian hanesyddol am bob dosbarth o dderbyniadau ar gyfradd o 3.7% real a 0.7% nominal (2016-17: 3.7% real, 0.7% nominal). Y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yw cyfradd ddisgownt Trysorlys EM. Mae'r dechneg amcangyfrifo a ddefnyddir yn tybio y bydd amseriad y llif arian yn y dyfodol yn dilyn patrwm hanesyddol.

**Hierarchaeth gwerthoedd teg**

Mae'r LAA yn defnyddio'r hierarchaeth ganlynol i benderfynu a datgelu gwerth teg yr offerynnau ariannol yn ôl techneg brisio:
Lefel 1: prisiau dyfynnu'r farchnad (heb eu haddasu) ar gyfer asedau neu rwymedigaethau unfath;
Lefel 2: technegau eraill lle mae pob mewnbwn sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg yn weladwy, naill ai'n union neu'n anuniongyrchol;
Lefel 3: technegau sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg a heb fod yn seiliedig ar ddata marchnad gweladwy..

Daw'r holl asedau a rhwymedigaethau ariannol sydd wedi'u mesur ar sail gwerth teg o dan lefel 3.

## Nodyn 15 – Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDYS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNNU | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU'N BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER GADAEL YN GYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 2,369 | – | 628,737 |
| Darparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | 1,731,742 | 41,364 | 270 | – | – | 1,773,376 |
| Darpariaethau wedi'u defnyddio yn y flwyddyn | (1,719,009) | (36,923) | (615) | (165) | – | (1,756,712) |
| Darpariaethau heb fod eu hangen – wedi eu hadfer | – | – | (565) | (191) | – | (756) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 629,946 | 12,496 | 190 | 2,013 | – | 644,645 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2016 | 585,208 | 5,194 | 1,136 | 2,307 | 316 | 594,161 |
| Darparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | 1,707,538 | 37,074 | 803 | 62 | – | 1,745,477 |
| Darpariaethau wedi'u defnyddio yn y flwyddyn | (1,675,533) | (34,213) | (596) | – | (122) | (1,710,464) |
| Darpariaethau heb fod eu hangen – wedi eu hadfer | – | – | (243) | – | (194) | (437) |
| At 31 March 2017 | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 2,369 | – | 628,737 |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llifau arian wedi eu disgowntio | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU'N BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG)) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER GADAEL YN GYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 629,946 | 12,496 | 190 | 1,342 | – | 643,974 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 460 | – | 460 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – | – | 211 | – | 211 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 629,946 | 12,496 | 190 | 2,013 | – | 644,645 |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llifau arian wedi eu disgowntio | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ACHOSION WEDI EU HARIANNU'N BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER GADAEL YN GYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 306 | - | 626,674 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 1,790 | - | 1,790 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 273 | - | 273 |
| Ar 31 Mawrth oio 2017 | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 2,369 | - | 628,737 |

Mae'r LAA yn amcangyfrif gwerth y costau na filiwyd amdanynt, a'r gorchmynion costau amddiffyn na filiwyd amdanynt, i gyrraedd y swm a ddatgelir yn y datganiadau ariannol fel darpariaeth. Mae'r swm yma'n amcan-swm o'r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn adrodd. Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, mae'r LAA wedi mabwysiadu technegau mesur darbodus ar sail y data diweddaraf. Trafodir y rhain ymhellach o dan Adnabod a Rheoli Risg Ariannol (nodyn 10) yn y datganiadau ariannol hyn.

Ar sail parhad cyfartalog achosion hanesyddol a'r data ar ohirio cyfartalog o ddyddiad dyfarnu'r gorchymyn costau amddiffyn tan ddyddiad talu'r bil, disgwylir bron i'r cyfan o'r costau am y symiau dyledus ar achosion na filiwyd amdanynt a gorchmynion costau amddiffyn na filiwyd amdanynt gael eu hachosi o fewn y 12 mis nesaf, ac felly ni ddefnyddiwyd unrhyw ddisgowntio.

Gwneir darpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyfreitha sy'n parhau. Darperir ar gyfer amcan-gostau dadfeilio yng nghyswllt adeiladau prydles. Mae'r ddarpariaeth wedi ei hamcangyfrif ar sail cyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y brydles berthnasol.

Disgwylir achosi costau'r darpariaethau dadfeilio rhwng 2018 a 2026 wrth i bob prydles ddod i ben.

## Nodyn 16 – Ymrwymiadau o dan brydlesi

**Prydlesi gweithredol**

Rhoddir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredol yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau canlynol.

| MAE RHWYMEDIGAETHAU O DAN BRYDLESI GWEITHREDOL YN CYNNWYS: | TIR AC ADEILADAU 2017-18 | TIR AC ADEILADAU 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 1,485 | 2,559 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | 2,032 | 2,821 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,040 | 794 |
| Cyfanswm | 4,557 | 6,174 |

O dan delerau'r prydlesi, nid oes unrhyw renti amodol yn daladwy a dim hawl i brynu. Cyfrifir yr ymrwymiadau ar sail oes lawn heb ddarfod y prydlesi.

## Nodyn 17 – Ymrwymiadau ariannol

Mae cyfanswm y taliadau y mae'r LAA yn ymrwymedig iddynt fel a ganlyn:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 605 | 1,946 |
| Hwyrach na blwyddyn ond nid hwyrach na phum mlynedd | – | 725 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaethau | 605 | 2,671 |

## Nodyn 18 – Asedau a rhwymedigaethau wrth gefn

Ar 31 Mawrth 2018, roedd yr LAA yn ymchwilio dau dribiwnlys cyflogaeth (2016-17: 4) a dwy her gyfreithiol oedd heb ddarfod (2016-17: 1). Ni ddatgelir gwerthoedd y rhwymedigaethau wrth gefn o ystyried natur sensitif yr achosion hyn.

Mae gan yr LAA un ased wrth gefn yng nghyswllt gorchmynion costau o achos cyfreithiol, gwerth cyfanswm o £266k (2016-17: dau achos gwerth cyfanswm o £221k).

## Nodyn 19 – Trafodion partïon cysylltiedig

Mae’r LAA yn un o asiantaethau gweithredol yr MoJ, sy'n cael ei hystyried i fod yn barti cysylltiedig. Dros y cyfnod hwn cafodd yr LAA amrywiol drafodion pwysig gyda’r MoJ. Cafodd yr LAA hefyd amrywiol drafodion o bwys gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), un o asiantaethau eraill yr MoJ, yng nghyswllt gwaith wedi’i ddarparu gan HMCTS ar ran yr LAA.

Mae’r LAA hefyd wedi cael nifer o drafodion gydag adrannau llywodraeth a chyrff eraill y llywodraeth ganolog. Y rhai mwyaf sylweddol o’r trafodion hyn oedd gyda Chyllid a Thollau EM a PCSPS.

Yn 2017-18, ni chafodd unrhyw Aelodau Bwrdd na phartïon cysylltiedig eraill unrhyw drafodion â’r LAA (2016-17: dim trafodion).

## Nodyn 20 – Asedau trydydd parti

Mae’r LAA yn dal dyfarniadau iawndal a chyfraniadau CCMT ar ran cwsmeriaid a ariannir (wele nodyn 1k).

Crynhoir isod gyfanswm yr asedau trydydd parti sydd ynghadw gan yr LAA:

| | 31 MAWRTH 2017 | LLIF ARIAN I MEWN | LLIF ARIAN ALLAN | 31 MAWRTH 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Iawndal * | 6,163 | 4,588 | (4,511) | 6,240 |
| Prawf Modd Llys y Goron ** | 10,916 | 21,101 | (20,802) | 11,215 |
| Cyfanswm asedau trydydd parti ynghadw fel arian parod | 17,079 | 25,689 | (25,313) | 17,455 |

* Mae’r LAA yn derbyn dyfarniadau iawndal cyn i achos gael ei setlo’n derfynol ynghyd â chyfraniadau gan gwsmeriaid tuag at gostau cyfreithiol.
** Mae’r LAA yn derbyn cyfraniadau tuag at gostau cyn i’r dyfarniad a'r costau terfynol mewn achos gael eu penderfynu. Bydd canlyniad yr achos yn y pen draw’n penderfynu a fydd asedau trydydd parti’n trosglwyddo i’r LAA neu’n mynd yn ôl i’r trydydd parti.

## Nodyn 21 - Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 ‘Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd’, mae digwyddiadau’n cael eu hystyried hyd at y dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i’w cyhoeddi, a ddehonglir fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

## Nodyn 22 – Effaith arweinyddiaeth drwy wneud

Fel yr eglurir yn nodyn 1z, cafodd arweinyddiaeth drwy wneud ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2017. Am resymau cymharol isod, cyflwynir tabl yn dangos y gwariant Gweinyddol cyn ac ar ôl yr addasiad ar gyfer arweinyddiaeth drwy wneud. Nid yw'r costau gweithredol net yn newid oherwydd symudir costau'r arweinyddiaeth drwy wneud o'r llinell drafodion i linell taliadau'r arweinyddiaeth drwy wneud yr ailgodwyd amdanynt gan yr MoJ.

| | GWARIANT GWEINYDDOL CYN ADDASU 2017- 18 | ADDASIAD 2017- 18 | GWARIANT GWEINYDDOL 2017- 18 | 2016- 17 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm | (832) | 179 | (653) | (682) |
| Costau staff gweinyddol | 48,511 | (6,487) | 42,024 | 49,629 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 8,757 | - | 8,757 | 10,069 |
| Costau gweinyddol eraill | | | | |
| Costau staff gweinyddol1 | 2,182 | (35) | 2,147 | 3,264 |
| Costau rhedeg swyddfeydd, TG a gwasanaethau | 7,404 | (4,869) | 2,535 | 14,732 |
| Costau staff ac aelodau pwyllgor | 1,127 | (190) | 937 | 1,346 |
| Prydlesi gweithredol | 2,695 | - | 2,695 | 2,666 |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | 1,190 | (68) | 1,122 | 1,346 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth gyda HMCTS | 140 | - | 140 | 172 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,461 | (1,103) | 358 | 2,171 |
| Trafodion di-arian parod | | | | |
| Colledion ar werthu asedau | - | - | - | 14 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol a dadfeilio | (486) | - | (486) | 428 |
| Symiau tybiannol yr ailgodwyd amdanynt gan yr MoJ | 9,181 | - | 9,181 | 9,841 |
| Symiau arweinyddiaeth drwy wneud yr ailgodwyd amdanynt gan yr MoJ | - | 12,573 | 12,573 | - |
| Ffioedd archwilio allanol tybiannol | 190 | - | 190 | 200 |
| Amorteiddio prydlesi gweithredol | (134) | - | (134) | (155) |
| **Cyfanswm costau gweithredol net ar gyfer Gweinyddu (wele nodyn 2)** | 81,386 | - | 81,386 | 95,041 |

1 Nid yw costau staff gweinyddol yn cyfateb i nodyn 2 'costau staff' oherwydd bod costau staff yng nghyswllt y Gronfa Cymorth Cyfreithiol.